Ymddiriedolaeth | BBC

# AROLWG AC ASESIAD YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Ysbrydolwyd cynnwys ychwanegol ar draws gwasanaethau eraill y BBC gan raglen BBC Radio 4, *A History of the World in 100 Objects*, ac anogwyd pobl hen ac ifanc i ymweld ag amgueddfeydd ac i ymchwilio i'w hanes eu hunain ar-lein. Yn y llun gwelir teulu ifanc yn ymweld â'r Amgueddfa Brydeinig, partner BBC Radio 4 yn y prosiect uchelgeisiol a gwreiddiol hwn.

Yn y llun gyferbyn gwelir y DU wedi'i gorchuddio ag eira. Gwasanaethau'r BBC oedd y brif ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer llawer o bobl yn ystod eira mis Ionawr, yn ogystal â digwyddiadau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn fel yr Etholiad Cyffredinol.

## RHAN 1 YMDDIRIEDOLAETH Y BBC



**TROSOLWG**
1-1 CRYNODEB O'R FLWYDDYN
1-2 RHAGAIR Y CADEIRYDD

**PERFFORMIAD Y BBC**
1-6 PERFFORMIAD YN ERBYN AMCANION STRATEGOL
1-8 PERFFORMIAD ARIANNOL
1-10 PWRPASAU
1-14 PERFFORMIAD GWASANAETHAU
1-17 CYRRAEDD SAFONAU GOLYGYDDOL
1-18 CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN

**PERFFORMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH**
1-22 NEWID GWIRIONEDDOL I DALWYR FFI'R DRWYDDED
1-29 CYNLLUNIAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER 2010/11

**LLYWODRAETHU**
1-32 YMDDIRIEDOLWYR Y BBC
1-34 CYNGHORAU CYNULLEIDFA
1-35 YMGYSYLLTU Â CHYNULLEIDFAOEDD
1-36 MASNACHU'N DEG

**O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH**
1-40 LLYWODRAETHU MEWNOL



# 1

“DIBEN EIN HOLL YMDRECHION YW LLYWIO’R BBC ER BUDD Y CYHOEDD A WASANAETHIR GANDDO. MAE TALWYR FFI’R DRWYDDED YN DWEUD WRTHYM EU BOD AM GAEL RHAGLENNI UNIGRYW O ANSAWDD UCHEL, SY’N CYNNIG GWERTH AM ARIAN A RHYWBETH AT DDANT PAWB. DYMA’R UNION BETHAU RYDYM WEDI BOD YN GWEITHIO I’W CYFLAWNI.”

SYR MICHAEL LYONS, CADEIRYDD

LLAI NA

# 40c

MAE POB CARTREF Â THRWYDDED YN Y DU YN TALU LLAI NA 40 CEINIOG Y DYDD AM HOLL WASANAETHAU’R BBC


MAE

# 97%


O OEDOLION Y DU YN DEFNYDDIO GWASANAETHAU’R BBC BOB WYTHNOS*

* Ffynhonnell: Arolwg ‘Cross Media Insight’ y BBC.

**£142.50 oedd cost ffi’r drwydded eleni. Roedd y gost fisol fesul ffi'r drwydded fel a ganlyn:**




**Arbedion effeithlonrwydd gros £m**





Drwy gasglu ffi’r drwydded mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, drwy leihau’r gost o reoli ein busnes o flwyddyn i flwyddyn a thrwy werthu a thrwyddedu rhaglenni ac asedau cynnwys i gwmnïau yn y DU a thramor, rydym yn ymdrechu i gynyddu’r arian sydd ar gael i’w fuddsoddi er mwyn darparu’r portffolio cywir o raglenni a gwasanaethau i gynulleidfaoedd y DU.

## GWARIANT YR YMDDIRIEDOLAETH


**Gwariant yr Ymddiriedolaeth £000**

Mae gwariant yr Ymddiriedolaeth fel canran o wariant y BBC ar wasanaethau cyhoeddus y DU wedi gostwng i 0.30%.




* Ailddatganwyd ar gyfer IFRS.

**Ffioedd Ofcom £000**




## YMGYNGHORIADAU’R YMDDIRIEDOLAETH

Rydym yn cynnal ymgynghoriadau i ddeall beth mae cynulleidfaoedd, y diwydiant ac eraill yn ei feddwl. Mae’r rhain yn llywio ein penderfyniadau ynghylch gwasanaethau’r BBC, a’r blaenoriaethau rydym yn eu pennu ar gyfer y Bwrdd Gweithredol.

**Cyfanswm yr ymatebion**




Cynhaliwyd naw ymgynghoriad cyhoeddus gennym yn 2009/10 a gwnaethom dderbyn 35,310 o ymatebion gan y cyhoedd, sef:

- arolwg o wasanaethau ar alw
- arolwg o BBC One, BBC Two, BBC Four
- arolwg o drwyddedau gwasanaeth BBC Radio 2 a BBC 6 Music
- arolwg o BBC ALBA
- arolwg o wasanaeth BBC Red Button
- arolwg o Ganllawiau Golygyddol y BBC
- Prosiect ‘Canvas’
- Canllawiau Etholiadol y BBC
- Gweithdrefn gwyno Darllediadau Etholiadol Pleidiau

# CRYNODEB O'R FLWYDDYN

## 2009/10: NEWID GWIRIONEDDOL I DALWYR FFI'R DRWYDDED

Mae Ymddiriedolaeth y BBC ('yr Ymddiriedolaeth') yn bodoli i sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Mae hynny'n golygu gwrando ar beth mae'r cyhoedd yn ei ddweud wrthym a gweithredu ar hynny i sicrhau eu bod yn cael y BBC modern, ymatebol a chynrychioliadol y maent ei eisiau. Dyma dri maes y cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth newid gwirioneddol ynddynt i dalwyr ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn.

### 1. GWEDDNEWID Y BBC AR GYFER TALWYR FFI'R DRWYDDED

Er ein bod yn gwybod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r BBC, maent hefyd yn dweud wrthym eu bod am iddo esblygu'n barhaus i adlewyrchu eu diddordebau. Hon yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, ac mae'n sail i'r rhan fwyaf o'n gwaith. Mae enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

**Rhoi ansawdd yn gyntaf**
Gorffennaf 2009: herio'r Bwrdd Gweithredol i adolygu strategaeth gyffredinol y BBC i bennu sut y gall y BBC gyflawni ei genhadaeth gwasanaeth cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mawrth 2010: derbyn cynigion y Bwrdd Gweithredol. Haf 2010: derbyn casgliadau dros dro yr Ymddiriedolaeth. Hydref 2010: adroddiad terfynol i'w gyhoeddi.

**Nodi terfynau ar gyfer BBC Worldwide**
Tachwedd 2009: gosod cyfyngiadau llymach ar gyfer gweithrediadau masnachol gan sicrhau eu bod yn parhau i ddod â manteision ariannol i dalwyr ffi'r drwydded.

**Rhoi prif flaenoriaeth i sicrhau natur unigryw**
Yn ystod y flwyddyn: dangos casgliadau o arolygon o wasanaethau radio fod natur unigryw yn brif flaenoriaeth i gynulleidfaoedd. Chwefror 2010: cymeradwyo newidiadau i BBC Radio 2 i'w gwneud yn fwy unigryw.

**Llywio trafodaeth am ddyfodol darlledu cyhoeddus**
Haf 2009: chwarae rôl weithredol yn nhrafodaeth Prydain Ddigidol y Llywodraeth, gan nodi sut y gallai'r BBC gyfrannu'n briodol at iechyd darlledu cyhoeddus y DU; dadleuwyd pa mor bwysig yw diogelu ffi'r drwydded ac annibyniaeth y BBC.

**Rheoli'r effaith ar y farchnad**
Medi 2009: cadarnhau na chaiff nawdd masnachol ei ganiatáu ar gyfer digwyddiadau'r BBC ar yr awyr. Hydref 2009: gwrthod cynigion y Bwrdd Gweithredol i sefydlu menter newydd i rannu'r iPlayer â darlledwyr cyhoeddus eraill.

### 2. BUDDSODDI YM MLAENORIAETHAU'R GYNULLEIDFA

Mae'n rhaid i'r BBC wasanaethu pob cynulleidfa, sy'n golygu diwallu ystod o anghenion a diddordebau amrywiol a chystadleuol. Rydym yn defnyddio ein cynllun gwaith i nodi'r hyn sy'n bwysig i dalwyr ffi'r drwydded fel y gallwn sicrhau bod y BBC yn canolbwyntio ei ymdrechion yn y meysydd hyn. Mae enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

**£25.5miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau plant**
Hydref 2009: Y Bwrdd Gweithredol yn addo cyllideb ychwanegol, yn dilyn argymhellion yr Ymddiriedolaeth ar bwysau cyllidebol mewn gwasanaethau plant.

**Teledu ar alw gam yn agosach**
Rhagfyr 2009: cymeradwyaeth dros dro i fenter ar y cyd y BBC i ddatblygu safon gyffredin i alluogi gwylwyr i wylio gwasanaethau ar alw ar y teledu (Prosiect 'Canvas').

**£15.3miliwn ychwanegol i wasanaethau teledu a radio lleol**
Gorffennaf 2009: gwelliannau wedi'u cymeradwyo i wasanaethau teledu a radio lleol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda £15.3miliwn ychwanegol erbyn 2012/13.

**Rhoi cyfle i dalwyr ffi'r drwydded ddweud eu dweud ar safonau**
Hydref 2009: yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf erioed ar Ganllawiau Golygyddol y BBC i sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf.

### 3. CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN

Mae'r Ymddiriedolaeth yn benderfynol o sicrhau y caiff pob dime goch o ffi'r drwydded ei defnyddio mor effeithiol â phosibl. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd economaidd heriol bresennol. Mae enghreifftiau o sut rydym wedi cyflawni hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

**Toriadau mawr i gyflogau uwch reolwyr**
Hydref 2009: cymeradwyo cynigion i dorri cyflogau uwch reolwyr 25% a lleihau niferoedd 18% dros dair blynedd a hanner.

**Dysgu gwersi o brosiectau adeiladu yn y gorffennol**
Chwefro 2010: yn dilyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar dri phrosiect adeiladu mawr a gynhaliwyd gan y BBC, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol gynnal 'gwiriad iechyd' ar bob prosiect mawr a oedd yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.

I gael manylion am weithgareddau eraill a gyflawnwyd gennym yn erbyn cynllun gwaith 2009/10, ewch i'n gwefan: www.bbc.co.uk/bbctrust.

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

## RYDYM YN CYHOEDDI'R ADRODDIAD BLYNYDDOL HWN AR ADEG HERIOL I'R DU. MEWN CYFNOD O'R FATH, MAE'N BWYSICACH NAG ERIOED I'R BBC GYFLAWNI DISGWYLIADAU'R CYHOEDD, GAN BARHAU'N DDIDUEDD AC YN ONEST AC ATEGU EIN FFORDD O FYW DRWY GEFNOGI TRAFODAETH GYHOEDDUS AGORED A HYDDYSG.

Mae hefyd yn hanfodol fod y BBC yn gwneud ei orau glas i sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded; bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau y caiff hyn ei gyflawni.

Y llynedd, nodais chwe ymrwymiad ar gyfer y BBC: cynnal y safonau golygyddol uchaf; gwasanaethu pob cynulleidfa; arwain, nid dilyn, mewn perthynas â chynnwys; cefnogi darlledu cyhoeddus; peidio â gwario mwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni ei gylch gwaith ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus; a diogelu annibyniaeth y BBC. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi bod yn sail i'n holl benderfyniadau eleni. Wrth wneud penderfyniadau rydym wedi profi cynigion yn drylwyr, dod i gasgliadau yn seiliedig ar ymchwil sy'n defnyddio barn cynulleidfaoedd a chyhoeddi ein holl dystiolaeth.

### BLWYDDYN Y BBC

Trof at flwyddyn y BBC a'r hyn y mae cynulleidfaoedd wedi ei ddweud wrthym. Mae'r BBC yn bwysig i'r cyhoedd o hyd, gyda 82% yn dweud y byddent yn gweld ei eisiau pe na fyddai yno. Mae'n parhau i gyrraedd bron pawb yn y DU – 97%* – ac mae ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion eraill yn parhau i symud yn y cyfeiriad cywir. Ond mae mwy i'w wneud.

#### Defnyddio pob dime goch

Mae'n hanfodol i ni sicrhau bod pob dime goch yn cael ei gwario'n ddoeth. Yn ystod y flwyddyn heriodd yr Ymddiriedolaeth y Bwrdd Gweithredol i leihau cyflogau'r uwch reolwyr a fyddai'n arwain at arbedion o 25% a lleihad o 18% yn nifer y staff dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn adeiladu ar y ffaith bod cyflogau'r rhan fwyaf o uwch reolwyr wedi'u rhewi am y tair blynedd diwethaf a bod eu taliadau bonws wedi'u hatal am gyfnod amhenodol, yn ogystal ag arbedion o ran costau talent. Ni fyddwn yn ymlacio mewn perthynas â'r materion hyn yn y flwyddyn i ddod.

#### Gwneud rhaglenni eithriadol

Mae'r cyhoedd yn beirniadu gwerth am arian ar ansawdd rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Rydym wedi darlledu mwy o raglenni o ansawdd uchel eleni, gyda phwyslais newydd ar wybodaeth ac addysg. Roedd *Wounded* (BBC One), *A History of the World in 100 Objects* (BBC Radio 4), *The Love of Money* (BBC Two) ac *Enid* (BBC Four) ymysg fy ffefrynnau, yn ogystal â darllediadau eithriadol o faterion cyfoes, yn arbennig y dirwasgiad, daeargryn Haïti a'r cyfnod yn arwain at yr etholiad.

Ond mae angen gwneud mwy o hyd. Mae'r cyhoedd yn dweud wrthym nad yw'r hyn y mae'r BBC yn ei wneud yn ddigon unigryw eto – dyma brif flaenoriaeth y BBC ar gyfer 2010/11.

#### Arolygu safonau golygyddol

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r BBC gynnal y safonau golygyddol uchaf a dysgu gwersi o'r gorffennol. Eleni arolygodd yr Ymddiriedolaeth Ganllawiau Golygyddol y BBC gyda help ymchwil cynulleidfa fanwl ac, am y tro cyntaf, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y newidiadau arfaethedig.


#### Arolygu gweithgareddau masnachol y BBC

Mae sicrhau na chaiff y BBC ei ddylanwadu'n ormodol gan ystyriaethau masnachol gan sicrhau nad yw'n defnyddio ei bŵer economaidd sylweddol i niweidio eraill yn rhannau pwysig o'n gwaith. Gwnaethom archwilio gweithgareddau masnachu'r BBC yn ofalus i sicrhau eu bod yn gyson â'i rôl.

### GWEDDNEWID Y BBC AR GYFER Y BRYDAIN FODERN

Yn yr un modd â'r diwydiant cyfathrebu cyfan, mae'r BBC yn wynebu dyfodol heriol o ganlyniad i'r dewisiadau cynyddol o ran ble a phryd rydym yn mwynhau cynnwys. Mae hyn yn codi cwestiynau mawr ynghylch sut mae'r BBC yn defnyddio ei arian. Lansiwyd arolwg o strategaeth gyfredol y BBC a gyhoeddais mewn llythyr agored i dalwyr ffi'r drwydded ym mis Medi. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar yr argymhellion a wnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol i ni, a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod yr Hydref. Ond mae'r Ymddiriedolaeth yn benderfynol o sicrhau y bydd y BBC yn canolbwyntio ar ei rôl gwasanaeth cyhoeddus, yn rhoi blaenoriaeth i ansawdd a natur unigryw, yn ymdrechu i sicrhau gwerth am arian ac yn glir ynghylch yr ymddygiad sy'n briodol o ystyried ei fod yn cael arian cyhoeddus.

Fodd bynnag, nid yr arolwg strategol yw'r bennod olaf. Un cam pwysig ydyw mewn ymgyrch hirach i sicrhau bod maint a ffurf y BBC yn briodol er mwyn darparu ar gyfer holl dalwyr ffi'r drwydded. Ni ddylai fod yn fwy na'r angen, a dylai ganolbwyntio ar ddefnyddio pob ceiniog o ffi'r drwydded yn effeithiol.



**Syr Michael Lyons**
Cadeirydd

* Gweler tudalen 1-6.



"MAE TALWYR FFI'R DRWYDDED YN YMDDIRIED YN Y BBC AC MAE'N BWYSIG IDDYNT. RYDYM YMA I SICRHAU EU BOD YN CAEL Y GORAU ALLAN O'R BBC. MAE HYNNY'N GOLYGU CEFNOGI A HERIO'R BWRDD GWEITHREDOL I SICRHAU BOD Y BBC YN AD-DALU'R YMDDIRIEDAETH HONNO."

SYR MICHAEL LYONS
CADEIRYDD



# YMDDIRIEDOLAETH Y BBC: ASESU PERFFORMIAD Y BBC

Mae'r BBC wedi gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda eleni gydag ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel ar deledu, radio ac ar-lein, er bod pobl yn dweud wrthym yr hoffent weld rhaglennu hyd yn oed yn fwy unigryw. Mae'r BBC yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd ynghylch achosion blaenorol o fethu â chyrraedd safonau golygyddol, ac mae wedi gwneud cynnydd da yn y gwaith o gyflawni gwerth am arian.

Un o gyflwynwyr BBC Radio Leeds, Adam Pope, yn gwrando ar amrywiaeth o safbwyntiau gan y gymuned leol yn ystod sesiwn ateb y ffôn. Mae sesiynau ateb y ffôn yn rhan bwysig o radio'r gwledydd a radio lleol, gan roi cyfle i bobl leisio barn a dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif.



# PERFFORMIAD Y BBC

# PERFFORMIAD YN ERBYN AMCANION STRATEGOL

## CREDWN FOD ANGEN CYFLAWNI MWY O WAITH I WNEUD ALLBWN Y BBC YN FWY UNIGRYW A CHYFLAWNI RHAI O'R PWRPASAU CYHOEDDUS. FODD BYNNAG, MAE'R BBC WEDI PERFFORMIO'N DDA WRTH WASANAETHU CYNULLEIDFAOEDD ELENI MEWN SAWL FFORDD.



Yma cyflwynwn adroddiad am yr ail flwyddyn yn ei chyfanrwydd ar y chwe amcan a nodir yng nghynllun strategol y Bwrdd Gweithredol, sef 'Dyfodol Creadigol'. Dyma ein prif ddull o arddel barn ar berfformiad y BBC ar lefel uchel.

### 1. DYLAI'R BBC WNEUD EI ALLBWN YN FWY UNIGRYW A GWELLA EI ANSAWDD.

Mae cryn dipyn o allbwn y BBC o ansawdd uchel iawn, er bod y gwaith o newid ymddygiad cynulleidfaoedd yn gyfrifol am gynyddu llawer o fesurau ansawdd. Rydym yn dal i gredu y gall y BBC wneud mwy i fod yn unigryw.
(Mae'r ffigurau mewn cromfachau ar gyfer 2008/09)

- parhaodd y sgôr gyfartalog allan o 10 am 'ansawdd uchel' y BBC i fod yn 6.4 (6.4)[1]
- cafwyd ychydig o gynnydd yng nghyfran y bobl a oedd yn cytuno'n gryf fod y BBC o ansawdd uchel i 36% (34%)[1]
- cynyddodd y mynegai gwerthfawrogiad cyfartalog ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC i 82 (80)[2]
- parhaodd y mynegai gwerthfawrogiad cyfartalog ar gyfer rhaglenni radio'r BBC i fod yn 79 (79)[2]
- y sgôr gyfartalog ar gyfer ansawdd safleoedd BBC Ar-lein yw 41 (–)[3]
- cafwyd ychydig o gynnydd yn y gyfran a oedd yn cytuno'n gryf fod rhaglenni teledu'r BBC yn 'wreiddiol ac yn wahanol' i 37% (36%)[2]

Fel darlledwr a gaiff arian cyhoeddus, mae hyn yn gyfrifoldeb mawr i'r BBC.

Gwelwyd newid yn ymddygiad gwylwyr teledu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar farn cynulleidfaoedd ynghylch y rhaglenni maent yn eu gwylio, ond eu bod yn teimlo'n llai cadarnhaol ynghylch arlwy deledu gyffredinol y BBC a darlledwyr eraill. Mae gwylwyr bellach yn fwy tebygol o wylio rhaglenni penodol na gwylio rhywbeth am fod y teledu yn digwydd bod ymlaen. Gwelwyd hyn am fod teledu digidol ar gael i bawb bron sy'n golygu bod mwy o ddewis o sianelau, a hefyd y defnydd cynyddol o gyfarpar megis recordwyr fideo personol a gwasanaethau dal i fyny ar-lein, megis BBC iPlayer.

Gan fod pobl yn dewis y rhaglenni maent wir yn eu mwynhau fwyfwy, mae'r sgoriau a gofnodwyd ar gyfer rhaglenni pob darlledwr wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae rhai cynulleidfaoedd yn llai bodlon ar yr hyn a gynigir ar y teledu o ran amrywiaeth a phethau annisgwyl. Ac mae disgwyliadau'r cyhoedd bob amser ar eu huchaf ar gyfer y BBC.

Mae ein gwaith ymchwil blynyddol ar gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus, a'r arolygon manylach a gynhaliwyd yn ddiweddar o BBC One, BBC Two a BBC Four, yn atgyfnerthu ein cred y gall y BBC barhau i wneud mwy ar ei brif wasanaethau sydd ag apêl eang, yn ogystal â'i arlwy niche lai, er mwyn bod yn wahanol i ddarlledwyr eraill. Dylai fanteisio ar yr arian y gall ddibynnu arno i gymryd risgiau mwy creadigol a bod yn fwy uchelgeisiol yn olygyddol.

Hefyd eleni gwnaethom weithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i ddiffinio gwir ystyr bod yn unigryw i allbwn y BBC (gweler tudalen 1-23), ac mae pob maes golygyddol bellach yn gweithio i gynnwys y diffiniadau hyn yn eu gwaith.

### 2. DYLAI'R BBC GYNNAL Y CYRHAEDDIAD MWYAF POSIBL SY'N GYSON Â'I BWRPASAU A'I WERTHOEDD.

Mae'r BBC yn rhagori ar y targed o 90% mewn perthynas â chynnal ei gyrhaeddiad.
(Mae'r ffigurau mewn cromfachau ar gyfer 2008/09)

- 97% oedd cyrhaeddiad wythnosol holl wasanaethau'r BBC yn 2009/10 (yn seiliedig ar system fesur newydd)[4]
- gan ddefnyddio'r hen system fesur parhaodd cyrhaeddiad wythnosol holl wasanaethau'r BBC yn 2009/10 i fod yn 93% (93% yn 2008/09)[1]

Mae gan y BBC ddyletswydd i wasanaethu pob cynulleidfa. Dim ond drwy gyrraedd nifer fawr o bobl y gall gyflawni ei bwrpasau. Ein targed yw gweld y BBC yn cyrraedd o leiaf 90% o oedolion y DU gyda'i wasanaethau bob wythnos. Mae cyrraedd y fath niferoedd o bobl yn arwydd clir bod y BBC yn parhau i gynhyrchu rhaglenni a chynnwys sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd, a hoffem longyfarch y Bwrdd Gweithredol am gyflawni hyn.

Eleni, dechreuwyd defnyddio arolwg newydd, sef 'Cross Media Insight', i fesur cyrhaeddiad. Mae'n ddull mwy trwyadl o fesur sut mae pobl yn defnyddio holl wasanaethau'r BBC ac yn cofnodi cyrhaeddiad uwch na'r fethodoleg flaenorol.

### 3. DYLAI'R BBC GYNNAL Y CANFYDDIAD O WERTH YMHLITH CYMERADWYWYR UCHEL A DYLAI GYNYDDU'R CANFYDDIAD O WERTH YMHLITH CYMERADWYWYR CANOLIG AC ISEL.

Rhagor o arwyddion bach o welliant.
(Mae'r ffigurau mewn cromfachau ar gyfer 2008/09)

- cafwyd ychydig o gynnydd o ran 'cymeradwywyr uchel' y BBC i 38% (37%)[1]
- parhaodd cyfran 'cymeradwywyr isel' y BBC i fod yn 12% (12%)[1]

Mae lefelau cymeradwyo'r BBC ymhlith y cyhoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau gwahanol bob amser wedi amrywio, ond mae'r BBC yn anelu at wasanaethu pawb, waeth beth fo'u lefel o gymeradwyaeth. Mae'n amlwg bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i apelio at gymeradwywyr isel. Pobl ifanc (15-24 oed) sy'n dueddol o roi'r gymeradwyaeth uchaf i'r BBC, ac mae wedi cynyddu ychydig bwyntiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch hefyd yn fwy tebygol o fod yn gymeradwywyr uchel o'r BBC.

### 4. DYLAI'R BBC AILENNYN YMDDIRIEDAETH YN EI ALLBWN.

Mae'r BBC wedi ailennyn ymddiriedaeth yn raddol.
(Mae'r ffigurau mewn cromfachau ar gyfer 2008/09)

- mae'r sgôr gyfartalog allan o 10 am 'Rwy'n ymddiried yn y BBC' yn dal i fod yn 6.0 (6.0)[1]
- cynyddodd cyfran y bobl a oedd yn cytuno'n gryf â'r datganiad 'Rwy'n ymddiried yn y BBC' i 31% (29%)[1]

Pennwyd yr amcan hwn mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau golygyddol yn 2007 a gafodd effaith amlwg ar ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC. Yn adroddiad y llynedd, mynegwyd pryder difrifol nad oedd rheolaethau golygyddol na chydymffurfiaeth o ran Sain a Cherddoriaeth yn ddigonol, yn dilyn yr achos difrifol o dorri canllawiau golygyddol ar BBC Radio 2. Ers hynny, fe'm calonogwyd i weld bod rheolaethau golygyddol a chydymffurfiaeth wedi cael eu hatgyfnerthu ymhob rhan o'r BBC, gyda chynnydd ardderchog yn cael ei wneud o ran Sain a Cherddoriaeth. Erbyn hyn mae canfyddiadau o ymddiriedaeth wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y digwyddiadau hyn. Fel gyda chymeradwyaeth, mae ymddiriedaeth yn dueddol o fod yn uwch ymhlith pobl ifanc.

### 5. DYLAI'R BBC WNEUD MWY I GYFLAWNI EI BWRPASAU CYHOEDDUS.

Er gwaethaf cyfeiriad strategaeth newydd y BBC, sef *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, a groesewir yn fawr, credwn y dylai'r Bwrdd Gweithredol gyflawni uchelgais greadigol a golygyddol uwch fel ei brif nod strategol.

Mae'r Siarter Frenhinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC hyrwyddo nifer o bwrpasau cyhoeddus mewn perthynas â'i holl wasanaethau. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi canolbwyntio ar gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus – ac yn arbennig ymdrin â'r bylchau mewn perfformiad a nodwyd gennym yn 2007 – dros y tair blynedd diwethaf.

Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i helpu'r BBC i wella'r ffordd y mae'n cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau, a llunio strategaeth a all hyrwyddo ac ategu nodau addysgol ffurfiol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau. Rydym yn awyddus i weld cynnydd o ran cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus o ganlyniad i'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Mae'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC o ran darparu allbwn sy'n unigryw ac yn greadigol ar bob llwyfan yn parhau i fod yn uwch na'r hyn y tybir ei fod yn ei ddarparu. Mae cysylltiad agos rhwng canfyddiadau yn y maes hwn a chanfyddiadau o werth am arian y BBC, felly parhawn i gredu mai dyma'r hyn y dylai'r Bwrdd Gweithredol fod yn canolbwyntio arno'n bennaf.

### 6. DYLAI'R BBC GYFLAWNI GWELLIANT O 3% BOB BLWYDDYN YN ERBYN EI DARGED EFFEITHLONRWYDD.

Eleni arbedwyd £275miliwn (costau net). Mae'r BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed cyffredinol, gan arbed £468miliwn (costau net) at ei gilydd yn ystod dwy flynedd gyntaf y prosiect pum mlynedd.

Mae arian ffi'r drwydded yn fraint fawr i'r BBC ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau ei fod yn gwario arian cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl. Felly, yn 2007, gwnaethom bennu targed effeithlonrwydd cronnol i'r Bwrdd Gweithredol dros y cyfnod pum mlynedd hyd at 2012/13.

Yn ôl adroddiadau'r Bwrdd Gweithredol, mae'n gwneud cynnydd da yn erbyn y targed hwn. Mae archwilwyr allanol y BBC, sef KPMG, yn darparu sicrwydd bob blwyddyn ar werth yr arbedion ariannol a ddatgenir. Rydym hefyd yn ystyried p'un a yw'r arbedion a wnaed yn enillion effeithlonrwydd gwirioneddol – hy nid ydynt wedi cael effaith andwyol ar berfformiad y gwasanaethau y mae'r BBC yn eu darparu. Cynlluniwyd fframwaith mesur perfformiad y BBC i sicrhau y gallwn asesu effeithiolrwydd y BBC o ran cyflawni effeithlonrwydd tra'n cynnal ansawdd. Ar hyn o bryd mae mesurau perfformiad yn dal eu tir ac nid oes unrhyw reswm i boeni ar sail yr effeithlonrwydd a welwyd hyd yn hyn.

### EDRYCH I'R DYFODOL: DIWYGIO'R AMCANION STRATEGOL

Fel rhan o'r broses o gymeradwyo strategaeth newydd ar gyfer y BBC, byddwn yn ystyried pa fath o amcanion priodol y dylid eu cyflwyno a sut y dylid eu mesur. Yna byddwn yn cyhoeddi adroddiad arnynt bob blwyddyn fel y gwnaed gennym yn y ddau Adroddiad Blynyddol diwethaf ar gyfer yr amcanion presennol.

[1] Ffynhonnell: Arolwg Olrhain ar draws y BBC.
[2] Ffynhonnell: Arolwg BBC Pulse.
[3] Ffynhonnell: Netpromoter, sgôr wedi'i phwysoli; dim ffigur cymaradwy ar gyfer 2008/09.
[4] Ffynhonnell: Arolwg 'Cross Media Insight' y BBC .

# PERFFORMIAD ARIANNOL

## CAIFF Y BBC EI ARIANNU MEWN FFORDD UNIGRYW, GYDA'R RHAN FWYAF YN CAEL EI DDARPARU GAN FFI'R DRWYDDED, Y MAE AELWYDYDD LEDLED Y DU YN TALU AMDANI. MAE'R ARIAN HWN YN RHOI BREINTIAU EITHRIADOL I'R BBC AC MAE GENNYM GYFRIFOLDEB I SICRHAU BOD YR ARIAN HWN YN CAEL EI WARIO'N DDA.

Yn wahanol i sefydliadau sy'n gwneud elw nid ydym yn canolbwyntio ar y llinell sylfaen. Yn hytrach mae angen i ni sicrhau bod y BBC yn darparu gwerth gwirioneddol a gweladwy i dalwyr ffi'r drwydded ac economi ehangach y DU. Mae hyn yn trosi'n bum amcan ariannol allweddol sy'n mesur ein cynnydd o ran creu a darparu'r gwerth hwn:

- sicrhau bod y BBC yn cael yr incwm mwyaf posibl drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon â phosibl
- gwneud y BBC mor effeithlon â phosibl, a darparu gwerth da am arian
- sicrhau bod y BBC yn gwneud yr elw mwyaf ar raglenni y mae ffi'r drwydded yn talu amdanynt
- sicrhau bod ffi'r drwydded o fudd i'r DU gyfan
- sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi greadigol ehangach

Nodir perfformiad y BBC yn erbyn yr amcanion ariannol hyn gyferbyn a cheir rhagor o fanylion yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Isod soniwn yn benodol am dri maes yr ydym wedi canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Gallwch ddarllen mwy am yr hyn a wneir gennym i sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei gwario'n ddoeth, a bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian, ar dudalennau 1-18-1-19.

### CYNLLUN PENSIWN

Yn Rhan Dau o'r Adroddiad hwn cyflwynir sefyllfa ariannol bresennol Cynllun Pensiwn y BBC. Fel llawer o gynlluniau o'r fath, mae newidiadau mawr mewn enillion bond a thybiaethau o ran blaenchwyddiant wedi effeithio ar y prisiad cyfredol, yn ogystal â'r newid mewn disgwyliad oes, sy'n golygu bod gan y cynllun ddiffyg mawr. Mae'r BBC felly yn wynebu'r her o leihau'r diffyg hwn, mewn ffordd sy'n foddhaol i ymddiriedolwyr a rheoleiddwyr y cynllun pensiwn, tra hefyd yn sicrhau bod y cynllun yn fforddiadwy yn yr hirdymor. Wrth ateb yr her hon, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu diwygio cynllun pensiwn y BBC.

Mae cynllun pensiwn yn un rhan o'r pecyn cydnabyddiaeth a gynigir i staff a mater gweithredol ydyw yn hytrach na mater strategol. Mae ein diddordeb yn y maes hwn yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â materion tymor hwy fforddiadwyedd i dalwyr ffi'r drwydded, fel nad yw'r pecyn cydnabyddiaeth cyffredinol a gynigir i staff yn costio mwy nag sydd ei angen er mwyn dilyn strategaeth gynaliadwy a theg wrth symud ymlaen.

### FFIOEDD TALENT

Ar ddechrau'r flwyddyn gwnaethom adolygu cynnydd y Bwrdd Gweithredol wrth weithredu argymhellion adroddiad 2008 ar rôl y BBC yn y farchnad dalent ar y sgrîn ac ar yr awyr. Daethom i'r casgliad fod cynnydd wedi cael ei wneud ond yn ein barn ni gallai, a dylai'r, BBC fynd ymhellach. Cafodd y Bwrdd Gweithredol y dasg o wneud rhagor o arbedion sylweddol yn ystod gweddill cyfnod ffi'r drwydded.

Mae'n dda gennym nodi bod y Bwrdd Gweithredol wedi dechrau cyflawni yn erbyn yr her hon. Am y tro cyntaf, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyhoeddi manylion costau talent yn Rhan Dau o'r Adroddiad hwn. Mae'r tabl hwn yn dangos bod y cyfanswm a wariwyd ar dalent (artistiaid, cyflwynwyr, newyddiadurwyr a cherddorion) yn 2009/10 £7.7miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiad o 4.0% ar gyfer rheng uchaf talent (y rhai sy'n ennill dros £150,000). Mae'r archwilwyr allanol wedi rhoi sicrwydd o ran y ffigurau hyn eu bod wedi cael eu llunio ar sail gyson i'r llinell sylfaen a ddiffiniwyd yn 2008/09. Er bod y cynnydd a welwyd hyd yn hyn yn galonogol disgwyliwn weld rhagor o gynnydd dros y blynyddoedd i ddod.

### CASGLU FFI'R DRWYDDED

Y llynedd cyhoeddwyd astudiaeth ar drefniadau casglu ffi'r drwydded. Daethom i'r casgliad fod yn rhaid i'r BBC gyflawni cydbwysedd o ran bod yn gadarn ond yn deg wrth gasglu ffi'r drwydded a gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n dda gennym nodi i'r Bwrdd Gweithredol wneud cynnydd da wrth weithredu'r argymhellion hyn, er bod rhai meysydd o hyd sydd ag amserlenni gweithredu hwy lle na orffennwyd cymryd camau eto. Un o ganlyniadau ymarferol ein harolwg fu ail-lunio'r llythyrau atgoffa cynnar fel eu bod yn gliriach, yn symlach ac yn llai cyhuddgar eu naws. Mae hefyd yn dda nodi, ar lefel fwy cyffredinol, erbyn trydydd chwarter 2009/10, i'r cwynion a gafwyd ynghylch Trwyddedu Teledu leihau 17% o flwyddyn i flwyddyn.

## Dadansoddiad o wariant y BBC

| | £m 09/10 | % 09/10 | £m 08/09 | % 08/09 |
|---|---|---|---|---|
| Teledu | **2,351** | **66** | 2,346 | 68 |
| Radio | **604** | **17** | 590 | 17 |
| Ar-lein | **199** | **6** | 178 | 5 |
| Arall | **406** | **11** | 335 | 10 |
| **Cyfanswm** | **3,560** | **100** | 3,449 | 100 |

## Tâl misol fesul ffi'r drwydded

| | £ 09/10 | % 09/10 | £ 08/09 | % 08/09 |
|---|---|---|---|---|
| Teledu | **7.85** | **66** | 7.91 | 68 |
| Radio | **2.01** | **17** | 1.99 | 17 |
| Ar-lein | **0.67** | **6** | 0.60 | 5 |
| Arall | **1.35** | **11** | 1.13 | 10 |
| **Cyfanswm** | **11.88** | **100** | 11.63 | 100 |

## CASGLU FFI'R DRWYDDED

Mae mwy o bobl yn talu am eu trwyddedau teledu ar-lein a thros y ffôn sy'n helpu'r BBC i gadw costau casglu i lawr. Eleni, cadwyd cost gyfunol casglu ac osgoi ar lefelau 2007/08 unwaith eto.

### Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %




## GWARIANT FFI'R DRWYDDED YN Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

Cafodd y Bwrdd Gweithredol y targed o wneud 50% o'n Teledu Rhwydwaith (yn ôl gwariant) y tu allan i Lundain erbyn 2016 gyda'r swm a werir yn y gwledydd yn cyrraedd 12% yn 2012 ac 16% erbyn 2016. Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau hyn.


### Gwariant rhaglennu teledu fesul ardal fel % o'r gwariant cymwys

| | % 09/10 | % 08/09 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y gwledydd | **11.7** | 7.9 |
| Cyfanswm y tu allan i Lundain | **37.7** | 34.9 |

## GWARIANT YN YR ECONOMI GREADIGOL

Unwaith eto, mae'r BBC wedi gwario mwy nag £1.1biliwn yn economi greadigol y DU, gan gomisiynu rhaglenni gan gwmnïau annibynnol (40% a 14% o gynnwys teledu a radio cymwys yn y drefn honno) a chydweithredu â phartneriaid creadigol eraill.

### Gwariant yn yr economi greadigol £m





## BBC WORLDWIDE

Cynyddodd BBC Worldwide ei werthiannau o flwyddyn i flwyddyn 7% a gwnaeth yr elw mwyaf erioed sef £147miliwn. Gwnaeth BBC Worldwide werth £151miliwn mewn difidendau a buddsoddiadau mewn rhaglenni i wasanaethau cyhoeddus y DU yn 2009/10.

### Refeniw statudol BBC Worldwide £m




### Elw BBC Worldwide cyn eitemau penodol, llog a threth £m




Paratowyd ffigurau 2007/08 o dan drefn UK GAAP. Paratowyd ffigurau blynyddoedd eraill o dan drefn IFRS

* Eitemau penodol yw eitemau sylweddol a amlygir oherwydd eu maint neu bwysigrwydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o berfformiad BBC Worldwide.

# PWRPASAU

## CENHADAETH Y BBC YW HYSBYSU, ADDYSGU A DIFYRRU. O DAN DELERAU'R SIARTER A'R CYTUNDEB BRENHINOL, DRWY EI ALLBWN, RHAID I'R BBC HYRWYDDO'R CHWE PHWRPAS CYHOEDDUS CANLYNOL:

- CYNNAL DINASYDDIAETH A CHYMDEITHAS WARAIDD
- HYRWYDDO ADDYSG A DYSGU
- YSGOGI CREADIGRWYDD A RHAGORIAETH DDIWYLLIANNOL
- CYNRYCHIOLI'R DU, EI GWLEDYDD, EI RHANBARTHAU A'I CHYMUNEDAU
- CYFLWYNO'R DU I'R BYD A'R BYD I'R DU
- HELPU I GYFLWYNO BUDDIANNAU TECHNOLEGAU A GWASANAETHAU CYFATHREBU NEWYDD



1



### SUT MAE'R BBC YN PERFFORMIO?

Mae gan bobl ddisgwyliadau uchel o'r BBC, sy'n gwbl gyfiawn, a rôl yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod y BBC yn bodloni'r disgwyliadau hynny. Mesurwn berfformiad y BBC yn erbyn pob pwrpas drwy gynnal arolwg blynyddol o gynulleidfaoedd. Ynddo, gofynnwn pa mor bwysig yw pob un o ymrwymiadau pwrpasau cyhoeddus y BBC i gynulleidfaoedd, a pha mor dda y credant y mae'r BBC yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn. Drwy gymharu'r sgorau hyn gallwn weld a yw'r BBC yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ymhob maes. Ategwn ganlyniadau'r arolwg hwn gydag adborth ein Cynghorau Cynulleidfa ynghyd â chanfyddiadau ein gweithgareddau eraill megis arolygon gwasanaeth, yn ogystal â gwaith ymchwil perthnasol arall a wneir gan yr Ymddiriedolaeth, y Bwrdd Gweithredol, Ofcom a Digital UK.

Yn ein harolwg rydym hefyd yn gofyn i gynulleidfaoedd gymharu perfformiad y BBC â darlledwyr eraill. Eleni, gwelsom fod y BBC yn rhagori ar ddarlledwyr eraill mewn perthynas â phob pwrpas cyhoeddus. Mae hyn i'w ddisgwyl i raddau, o ystyried nad oes angen i ddarlledwyr masnachol gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Serch hynny, mae'n dangos bod y BBC yn cynnig rhywbeth gwahanol.

1 *Stranger danger*: Cynhaliodd gwasanaethau plant y BBC ymgyrch i helpu plant i fod yn ymwybodol o'r bygythiadau posibl gan ddieithriaid.

2 Rhaglen *Today* ar BBC Radio 4 – dim ond rhan o'r arlwy o bron i 14,000 awr o newyddion, gwybodaeth a materion cyfoes ar radio rhwydwaith y BBC bob blwyddyn.

3 *Empire of the Seas* – ar BBC Two, BBC Four a BBC iPlayer – a ddatgelodd hanes syfrdanol y Llynges Frenhinol.

4 Roedd *Small Island* yn addasiad clodwiw o lyfr llwyddiannus Andrea Levy – ac yn rhan fechan o'r 980 awr o ddrama ar BBC One yn unig y llynedd.

## 1. CYNNAL DINASYDDIAETH A CHYMDEITHAS WARAIDD

**Mae gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uchel o ran arlwy newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae'r rhain yn cael eu bodloni ar y cyfan ond mae hwn yn faes pwysig a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth y flwyddyn nesaf.**




Mae a wnelo ymrwymiadau'r BBC yn y maes hwn â newyddion, materion cyfoes, a meithrin dealltwriaeth pobl o'r broses wleidyddol. Yn ei gynnig i adolygu'r strategaeth, nododd y Bwrdd Gweithredol fod newyddiaduraeth yn flaenoriaeth bwysig, sy'n egwyddor rydym yn cytuno â hi.

Mae gan gynulleidfaoedd feddwl mawr o'r BBC yn y maes hwn ond mae disgwyliadau ychydig yn uwch na pherfformiad felly nid oes lle i laesu dwylo. Nododd y gwaith ymchwil a wnaed fel rhan o'n harolwg o BBC Radio 2 a BBC 6 Music fod y ddwy orsaf hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i ddinasyddiaeth. Yn arbennig, mae *The Jeremy Vine Show* ar BBC Radio 2 yn llwyddo i gynnwys gwrandawyr incwm is wrth drafod materion cyfoes, pan fo rhannau eraill o'r BBC yn ei chael yn anodd yn aml i gyrraedd y gynulleidfa hon.

## 2. HYRWYDDO ADDYSG A DYSGU

**Mae'r BBC yn bwriadu atgyfnerthu ei gynnwys addysgol i ysgolion a cholegau er mwyn bodloni disgwyliadau uchel cynulleidfaoedd.**




Mae gan y BBC ddyletswydd i gefnogi addysg ffurfiol mewn ysgolion a cholegau. Mae sgorau perfformiad ar gyfer yr ymrwymiad hwn yn uchel o gymharu â phwrpasau eraill ond mae disgwyliadau yn uwch, yn enwedig ymhlith rhieni â phlant o dan 18 oed sy'n credu y gallai'r BBC wneud mwy yn y maes hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi bod yn cynnal asesiad strategol o sut y gellir gwella darpariaeth dysgu ffurfiol, a disgwylir iddo gyflwyno cynigion i'r Ymddiriedolaeth yr haf hwn.

Yn ogystal â chefnogi addysg ffurfiol, mae'r BBC yn cynnig cynnwys sy'n gwella gwybodaeth a sgiliau pobl mewn ystod eang o bynciau. Yn wahanol i ddysgu ffurfiol, mae'r cynnwys hwn yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ar y cyfan.




## 3. YSGOGI CREADIGRWYDD A RHAGORIAETH DDIWYLLIANNOL

**Prif flaenoriaeth y BBC yw darparu allbwn sy'n unigryw ac yn greadigol, gan nad yw disgwyliadau cynulleidfaoedd yn y maes hwn yn cael eu bodloni o hyd.**

Mewn perthynas â'r pwrpas hwn, mae'r BBC wedi ymrwymo i ddarparu cynnwys unigryw a difyr yn ogystal â darlledu gweithgareddau diwylliannol ac annog pobl i gymryd rhan ynddynt. Y llynedd nodwyd mai gwella perfformiad yn y ddau faes hyn fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiad cynulleidfaoedd bod y BBC yn cynnig gwerth am arian. Fodd bynnag, mae ein harolwg eleni yn dangos mai yn y maes hwn y ceir y bwlch mwyaf rhwng disgwyliad a pherfformiad, heb fod unrhyw newid sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl allbwn sy'n unigryw ac yn greadigol, ond, mewn llawer o achosion, ni fodlonir y disgwyliadau hyn.

Mae'r pwrpas sy'n ymwneud â chreadigrwydd hefyd yn cynnwys ymrwymiad i feithrin a chefnogi talent y DU. Mae hyn yn hanfodol i ansawdd a natur unigryw, ond dim ond hyn a hyn o help y gall ein harolygon o gynulleidfaoedd ei roi i ni er mwyn deall cyfraniad y BBC i dalent y DU. Am y rheswm hwn bwriadwn wneud gwaith ymchwil penodol gyda rhanddeiliaid y diwydiant yn 2010/11.

### Angen gwneud mwy o waith ym myd teledu

Dangosodd ein harolygon gwasanaeth o BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC 6 Music fod cynulleidfaoedd o'r farn bod y gorsafoedd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i bwrpas creadigrwydd drwy chwarae ystod eang o gerddoriaeth, yn enwedig cerddoriaeth newydd a byw. Er yr ymddengys bod radio yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran creadigrwydd, gwnaed argymhellion i wella gallu gorsafoedd cerddoriaeth boblogaidd i gyflawni'r pwrpasau a gwella natur

unigryw ymhellach. Mae ein harolygon gwasanaeth o BBC One, BBC Two a BBC Four yn dangos, er bod y sianelau'n perfformio'n dda mewn sawl ffordd, y broblem fwyaf i gynulleidfaoedd yw'r ffaith nad oes digon o raglenni 'ffres a newydd'. Maent am weld y BBC yn defnyddio ffi'r drwydded i gymryd mwy o risgiau gyda rhaglennu newydd ac unigryw, a bod yn fwy uchelgeisiol. Gellir gweld ein canfyddiadau cychwynnol ar y gwasanaethau hyn mewn adroddiad ar wahân ar ein gwefan.

Bydd y gwaith o leihau'r bwlch rhwng disgwyliadau a'r hyn a ddarperir yn her am fod gan bobl safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn sy'n cyfrif am gynnwys creadigol ac unigryw. Fodd bynnag, fel darlledwr cyhoeddus, rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys na all cynulleidfaoedd ei gael rhywle arall yn eu barn hwy. Am y rheswm hwn dyma'r maes y bydd y BBC yn canolbwyntio arno fwyaf yn 2010/11.

## 4. CYNRYCHIOLI'R DU, EI GWLEDYDD, EI RHANBARTHAU A'I CHYMUNEDAU

**Mae cynulleidfaoedd yn dal i deimlo bod gwendidau o ran y ffordd y mae'r BBC yn cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau i bobl eraill yn y DU; mae'r BBC yn cymryd camau i fynd i'r afael â hwy.**

1


Ceir arwyddion bod y ffordd y mae'r BBC yn cynrychioli'r gwledydd, rhanbarthau a chymunedau wedi gwella eleni ar y cyfan. Fodd bynnag, dengys ein harolygon fod gwendidau yn dal i fodoli yn y gwledydd datganoledig, yn enwedig yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae disgwyliadau yn uwch a chanfyddiadau o berfformiad yn is. Yn 2010/11 bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu gwasanaethau radio'r gwledydd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ni ymchwilio i'r ffordd y cynrychiolir gwledydd ar y radio ymhellach.

Yn ogystal â chynrychioli'r gwledydd, rhanbarthau a chymunedau, mae'r pwrpas hwn hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i adlewyrchu gwahanol grefyddau a chredoau eraill, dwyn pobl ynghyd i rannu profiadau, ennyn diddordeb mewn cymunedau lleol a darparu allbwn mewn ieithoedd eraill. Mae perfformiad wedi parhau i fod yn gymharol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr ymrwymiadau hyn ac mae disgwyliadau cynulleidfaoedd yn cael eu bodloni ar y cyfan.

### Deall gwleidyddiaeth yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Mae cynulleidfaoedd yn dal i feddwl y gallai'r BBC wneud mwy i'w helpu i ddeall gwleidyddiaeth yn eu hardal. Bu rhai gwelliannau yn y gwledydd datganoledig, yr Alban yn fwyaf arbennig, lle mae'r bwlch rhwng disgwyliadau a pherfformiad wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â'r llynedd. Mae, fwy na thebyg, yn rhy gynnar dweud a fydd y newid hwn yn barhaol, ond yn ystod haf 2010 byddwn yn cyhoeddi gwaith ymchwil dilynol ar natur ddiduedd newyddion rhwydwaith o ran y gwledydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r newid a welwyd hyd yn hyn yn duedd barhaus.

### Gwella cynrychiolaeth genedlaethol a lleol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r BBC wedi mynd ati i ymdrin â chynrychiolaeth genedlaethol a lleol. Mae ein gwaith wedi cynnwys mentrau megis adolygu natur ddiduedd darllediadau newyddion rhwydwaith o'r gwledydd, adolygu cyflenwadau teledu a radio'r rhwydwaith a edrychodd ar y mannau y caiff y BBC ei raglenni ohonynt, a phrosiect BBC North a symudodd rannau mawr o gynhyrchu'r BBC i Salford. Bydd llawer o'r mentrau hyn yn cymryd amser i effeithio ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd, yn enwedig cyflwyno cwotâu newydd sy'n pennu faint o raglennu y dylid ei gyflenwi y tu allan i Lundain, a'r broses o symud i Salford.

Mae'r mater hwn yn flaenoriaeth yn ein cynllun gwaith, a thros y misoedd i ddod byddwn yn monitro llwyddiant y mentrau hyn. Gobeithiwn y bydd canfyddiadau cynulleidfaoedd yn yr Alban hefyd yn gwella yn sgîl gwasanaethau cyfryngau Gaeleg ar BBC ALBA a gwblhaodd ei blwyddyn gyntaf ar yr awyr ym mis Medi. Mae BBC ALBA ar gael ar deledu lloeren ar hyn o bryd ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n cynnal arolwg i bennu a ddylid ei darlledu ar Freeview hefyd. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein casgliadau yn ddiweddarach eleni.

### Ymgyrchoedd ac apeliadau elusennol

Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i gysylltu cynulleidfaoedd â chynnwys gweithredu cymdeithasol, ymgyrchoedd penodol neu apeliadau elusennol sydd wedi'u cynllunio er budd cymdeithas. Mae'r BBC yn cynnal ystod eang o ymgyrchoedd bob blwyddyn ac rydym yn awyddus i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl. Eleni, daeth ein harolwg o wasanaeth BBC Radio 2 i'r casgliad y dylai'r orsaf gynnal ei hymgyrchoedd drwy ystod ehangach o raglenni yn ystod oriau brig er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy. Mae'r orsaf eisoes wedi ymateb i hyn drwy lansio ei hymgyrch 'Get Connected' ym mis Mawrth 2010 sy'n anelu at helpu mwy o wrandawyr BBC Radio 2 i fynd ar-lein a deall technoleg ddigidol yn well. Cynhaliwyd yr ymgyrch ar ystod eang o sioeau gan gynnwys *Weekend Wogan, The Chris Evans Breakfast Show, The Jeremy Vine Show, Steve Wright in the Afternoon, Simon Mayo's Drivetime, The Ken Bruce Show, The Alex Lester Show, a Good Morning Sunday* a gyflwynir gan Aled Jones.

1 Mae cyngherddau a setiau byw yn elfen bwysig o arlwy cerddoriaeth unigryw'r BBC ar radio a theledu. Yn y llun gwelir Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn Neuadd Hoddinott yng Nghaerdydd.

2 Fida Bassil (Dd) ac Osman Ayfarah (Ch) o sianel deledu BBC Arabic, sianel newyddion a gwybodaeth y BBC yn yr iaith Arabeg.

3 Mae BBC iPlayer yn galluogi defnyddwyr i wylio rhaglenni neu wrando ar raglenni y maent wedi eu colli efallai – neu y maent am eu mwynhau eto – gan wella gwerth ffi'r drwydded. Caiff BBC Ar-lein ei adolygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

## 5. CYFLWYNO'R DU I'R BYD A'R BYD I'R DU

**Mae'r BBC yn gwneud yn dda yn y ddau faes hyn drwy BBC World Service a BBC One a BBC Two.**




Fel rhan o'r pwrpas hwn, mae'r BBC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau newyddion rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd. Mae'n gwneud hyn yn bennaf drwy BBC World Service, sy'n darlledu mewn mwy na 30 o ieithoedd i tua 180 miliwn o wrandawyr ledled y byd. Y llynedd cwmpasodd ein gwaith ymchwil yn y maes hwn BBC Hausa yn Nigeria, Niger a Ghana a BBC Urdu ym Mhacistan. Mae cynulleidfaoedd targed y ddau wasanaeth hyn o'r farn gyffredinol eu bod o ansawdd uchel.

### Cadw mewn cysylltiad â'r byd

Mae'r pwrpas hwn hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gwybod beth sy'n digwydd yn y byd, a rhoi cipolwg iddynt o'r ffordd y mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill. Yn ôl ein gwaith ymchwil mae gan gynulleidfaoedd feddwl mawr o'r BBC yn y meysydd hyn ac mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â data Ofcom sy'n olrhain p'un a yw cynulleidfaoedd yn teimlo bod sianelau arbennig yn eu helpu i 'ddeall beth sy'n digwydd yn y byd'. Rhagorodd BBC One a BBC Two ar ddarlledwyr cyhoeddus eraill yn erbyn y mesur hwn y llynedd.

## 6. HELPU I GYFLWYNO BUDDIANNAU TECHNOLEGAU A GWASANAETHAU CYFATHREBU NEWYDD

**Mae'r BBC yn bodloni disgwyliadau o ran ei ymrwymiad i sicrhau bod cynnwys digidol ar gael i gynulleidfaoedd.**




Mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau bod cynnwys ar gael drwy gyfryngau digidol, megis ffonau symudol, teledu rhyngweithiol, radio digidol a'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid yw cynulleidfaoedd yn poeni rhyw lawer am y pwrpas hwn. Ar y cyfan credant fod perfformiad y BBC yn gymharol isel yn y maes hwn o gymharu â phwrpasau eraill, ond yn ddigon uchel i fodloni eu disgwyliadau. Yn ein harolwg o BBC Radio 2 a BBC 6 Music daethom i'r casgliad fod BBC Radio 2 wedi bod yn llai llwyddiannus na gorsafoedd eraill y BBC yn annog ei chynulleidfa i wrando arni'n ddigidol neu i fynd ar-lein. Felly, gwnaethom argymell y dylai'r orsaf ddefnyddio ei dylanwad i hyrwyddo buddiannau cyfryngau digidol fel nad yw grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael eu gadael ar ôl.

Un o'n cyfrifoldebau yw sicrhau bod y BBC yn cyrraedd pob cynulleidfa. Fel rhan o'r broses o adolygu'r strategaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ystyried beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ac ymhle y dylid cael cydbwysedd rhwng mynd ar drywydd technoleg newydd a llenwi'r bylchau o ran cwmpas a geir mewn rhai rhannau o'r DU.

### Newid i ddigidol

Mae'r pwrpas hwn yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi'r broses o newid i ddigidol, y gellid dadlau mai dyma'r newid mwyaf i fyd teledu ers cyflwyno lliw. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymru, ynghyd â De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr, wedi newid i ddigidol ac mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar gyflawni targed y Llywodraeth i newid y DU gyfan i ddigidol erbyn 2012. Mae'r BBC hefyd yn parhau i ehangu ei rwydwaith darlledu sain digidol (DAB) cenedlaethol ac mae'r rhan fwyaf o orsafoedd radio digidol yn unig y BBC yn parhau i gynyddu eu cyrhaeddiad er bod lefelau cynulleidfaoedd yn dal i fod yn isel o gymharu â gorsafoedd analog. Fel rhan o gynnig y Bwrdd Gweithredol i adolygu'r strategaeth argymhellwyd cau'r gorsafoedd radio digidol BBC 6 Music a BBC Asian Network. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig y Bwrdd Gweithredol a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein casgliadau yn ystod haf 2010.

### Rhyngweithio â chyfryngau gwahanol

Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i alluogi cynulleidfaoedd i ddeall a defnyddio mathau gwahanol o gyfryngau. Yn unol â safbwyntiau cyffredinol ynghylch y pwrpas hwn, nid yw cynulleidfaoedd o'r farn bod yr agwedd hon yn bwysig iawn. Roedd sgorau ar gyfer perfformiad yn isel, ond yn bodloni disgwyliadau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ymchwil ar lythrennedd y cyfryngau eleni yn nodi, pan anogir pobl i feddwl yn fanylach am y pwnc hwn, mae'r rhan fwyaf o'r farn bod hwn yn faes pwysig i'r BBC, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Felly, byddwn yn gwneud rhagor o waith ymchwil ar lythrennedd y cyfryngau yn 2011.

# PERFFORMIAD GWASANAETHAU

## MAE GWASANAETHAU'R BBC WEDI PERFFORMIO'N GRYF IAWN ELENI AR Y CYFAN, GAN GYRRAEDD LLAWER O GYNULLEIDFAOEDD GYDA CHYNNWYS O ANSAWDD UCHEL. RYDYM YN PARHAU I ANNOG Y BWRDD GWEITHREDOL I FOD YN FWY UCHELGEISIOL YN GREADIGOL AC YN OLYGYDDOL GYDA'I HOLL ALLBWN.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu perfformiad y Bwrdd Gweithredol wrth ddarparu gwasanaethau'r BBC ac yn ei ddwyn i gyfrif. Yma cyflwynwn adroddiad ar berfformiad y BBC eleni ym meysydd:

- teledu
- radio
- ar-lein
- newyddion
- chwaraeon
- BBC World Service



### TELEDU

Eleni gwnaethom adolygu BBC One, BBC Two a BBC Four. Daw'r arolygon i ben yn ystod hydref 2010 ond gellir gweld ein canfyddiadau interim ar y gwasanaethau hyn ar ein gwefan.

Mae pob sianel deledu (BBC ac eraill) wedi parhau i gofnodi cynnydd mewn gwerthfawrogiad o ran rhaglenni unigol a chanfyddiadau o raglenni yn rhai sydd o ansawdd uchel ac 'yn wreiddiol ac yn wahanol'. Yn sgîl ymchwiliad y Bwrdd Gweithredol i'r cynnydd hwn gwelwyd ei fod, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i newidiadau mewn ymddygiad gwylio, lle mae dewis digidol ac opsiynau ar alw yn galluogi cynulleidfaoedd i fod yn fwy dewisol o ran yr hyn maent yn ei wylio ac, felly, werthfawrogi'r hyn maent yn ei wylio'n fwy. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod ystod ehangach o sianelau digidol yn gwneud i lawer o wylwyr deimlo bod teledu yn llai gwreiddiol a gwahanol yn gyffredinol. Rydym yn parhau i drafod y mater hwn yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Gweithredol gan ei fod wrth wraidd gallu'r BBC i gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus yn dda. Rydym yn dal yn awyddus i weld mwy o uchelgais greadigol a gwreiddioldeb yn holl allbwn y BBC.

Rydym wedi gweld arwyddion calonogol bod BBC Two yn dechrau darparu arlwy unigryw fwy cyson, yn enwedig o ran ei hallbwn ffeithiol, a derbyniwn y gall hyn gael rhywfaint o effaith ar gyrhaeddiad a'r gyfran o'r gynulleidfa. Er bod cyrhaeddiad portffolio teledu'r BBC a BBC One yn gymharol gyson, lleihaodd cyrhaeddiad BBC Two ychydig ar ôl sawl blwyddyn sefydlog.

Daeth ein harolwg o BBC Three yn 2009 i'r casgliad bod y sianel wedi dod yn rhan bwysig o bortffolio teledu'r BBC drwy ei gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd iau a'i rôl yn y gwaith o gomisiynu rhaglenni sy'n cymryd risgiau creadigol. Fe'm calonogir gan y ffaith bod BBC Three yn parhau i dorri tir newydd gyda rhaglennu o bob genre a thrwy nifer y bobl ifanc a wnaeth wylio a gwerthfawrogi rhai o raglenni ffeithiol a materion cyfoes y sianel. Parhaodd BBC Three i gynyddu ei chyrhaeddiad eleni, ac mae bellach yn perfformio'n dda ymhlith ei chynulleidfa darged ifanc. Mae hyn, ynghyd â chyllideb is yn 2009/10, wedi arwain at welliant sylweddol o ran gwerth am arian BBC Three.

Fodd bynnag, nodwn fod y defnydd o arlwy ar-lein ac aml-lwyfan y sianel yn gymharol isel o hyd a byddwn yn ceisio esboniad pellach o rôl ar-lein ar gyfer BBC Three wrth i ni ystyried cynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer strategaeth y BBC yr haf hwn.

Rydym yn falch o weld bod gwylwyr rhaglenni BBC Four o'r farn bod cyfran fawr iawn ohonynt o ansawdd uchel, yn wreiddiol ac yn wahanol a nodwn ei rôl yn y gwaith o ddarparu rhaglennu cerddoriaeth a'r celfyddydau o ansawdd uchel iawn. Fel rhan o'r broses o ystyried strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* y Bwrdd Gweithredol, rydym wrthi'n edrych ar ffocws y sianel yn y portffolio teledu yn y dyfodol.

MAE POB SIANEL DELEDU (BBC AC ERAILL) WEDI PARHAU I GOFNODI CYNNYDD MEWN GWERTHFAWROGIAD O RAN RHAGLENNI UNIGOL A CHANFYDDIADAU O RAGLENNI YN RHAI SYDD O ANSAWDD UCHEL AC 'YN WREIDDIOL AC YN WAHANOL'.

## Plant

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad lle mae'r buddsoddiad mewn cynnwys i blant a gynhyrchir yn y DU yn gostwng. Ond ar yr un pryd mae'r BBC yn cystadlu am sylw plant gyda darlledwyr byd-eang sefydledig megis Disney a Nickelodeon yn ogystal â'r arlwy gynyddol o fathau eraill o adloniant.

Pan adolygodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau plant yn 2009 canmolwyd eu perfformiad cryf yn yr amgylchedd heriol hwn ond awgrymwyd hefyd y dylid gwneud rhai newidiadau i sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn gonglfaen i raglennu plant o ansawdd uchel yn y DU. Mae hyn wedi arwain at ddyrannu £25.5miliwn ychwanegol i wasanaethau plant dros y tair blynedd nesaf. Rydym bellach yn ystyried cynnig i wneud buddsoddiad pellach mewn rhaglennu plant gan y Bwrdd Gweithredol fel rhan o'r strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf.*

Mae CBeebies wedi cynnal ei chyrhaeddiad eleni a hon yw'r sianel fwyaf poblogaidd ymhlith plant ifanc o hyd. Lleihaodd niferoedd cynulleidfa CBBC ychydig o gymharu â'r llynedd, ond hon yw'r sianel fwyaf poblogaidd ymhlith plant mewn cartrefi â theledu digidol o hyd. Mae canfyddiadau o ansawdd yn parhau i fod yn uchel iawn ar gyfer y ddwy sianel, yn enwedig CBeebies, sy'n boblogaidd iawn ymhlith rhieni a phlant.

## RADIO

Yn gyffredinol, mae pobl yn treulio llai o amser yn gwrando ar y radio. Lleihaodd nifer yr oriau cyfartalog o wrando ar y radio fesul unigolyn o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r duedd hon yn parhau i fod ar ei chryfaf ymhlith pobl ifanc.

### Radio rhwydwaith

Er gwaethaf hyn, cafodd portffolio radio rhwydwaith y BBC flwyddyn gref gydag ychydig o gynnydd o ran cyrhaeddiad a chynulleidfa.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch twf araf DAB a nodwn sut mae hyn wedi effeithio ar berfformiad rhai o wasanaethau'r BBC sydd ond ar gael ar lwyfannau digidol, yn enwedig BBC Asian Network. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cynnig cau BBC Asian Network fel rhan o'i arolwg o'r strategaeth. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein casgliadau yn ystod haf 2010.

Yn dilyn ein harolwg o BBC Radio 1 a BBC 1Xtra y llynedd, rydym wedi bod yn monitro eu perfformiad yn erbyn yr heriau a bennwyd gennym ar gyfer y gorsafoedd. Fe'n calonogwyd gan newidiadau gweithredol sydd yn amlwg yn anelu at atgyfnerthu ffocws BBC Radio 1 ar gynulleidfa prif ffrwd ifanc, yn hytrach na hŷn, er nad yw'r rhain wedi cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw newid i broffil oedran yr orsaf eto.

Nodwn fod perfformiad BBC Radio 1 o ran gwasanaethu pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn dal i fod yn her a byddwn yn parhau i asesu llwyddiant ymdrechion y Bwrdd Gweithredol i fynd i'r afael â hyn. Mae'n bwysig bod BBC Radio 1 yn parhau i fod yn berthnasol i sylfaen eang o bobl ifanc fel y gall yr orsaf barhau i hyrwyddo pwrpasau cyhoeddus y BBC yn eang.

Fe'n calonogwyd gan arwyddion cynnar bod y newidiadau a gymeradwywyd gennym ar gyfer BBC 1Xtra y llynedd – allbwn newyddion wedi'i ailfformatio a dull newydd o gynnig 'cerddoriaeth newydd' – yn helpu'r orsaf i gynnig gwerth cyhoeddus i'w gwrandawyr.

Gwnaethom adolygu BBC Radio 2 a BBC 6 Music yn gynharach eleni. O ganlyniad, cynigiodd y Bwrdd Gweithredol gau BBC 6 Music fel rhan o'i gynigion i adolygu'r strategaeth.

### Radio'r gwledydd a radio lleol

Mae gorsafoedd radio'r BBC ar gyfer yr holl wledydd datganoledig sy'n cynnwys gorsafoedd sy'n darlledu yn Gymraeg a Gaeleg, ac ar gyfer rhanbarthau Lloegr, yn gwneud cyfraniad pwysig i nod y BBC o gynrychioli gwahanol gymunedau'r DU. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad llawer o'r gorsafoedd hyn wedi bod yn lleihau, ac rydym bellach yn awyddus i sefydlu eu rôl a'u pwrpas yn gliriach ochr yn ochr â gorsafoedd y BBC sy'n gwasanaethu'r DU gyfan. Byddwn yn ystyried hyn, a llawer o faterion eraill, yn ein harolygon o'r gorsafoedd hyn.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cynnig strategaeth newydd ar gyfer radio lleol Lloegr sy'n cael ei hystyried gennym ar hyn o bryd. Byddai'n arwain at fwy o fuddsoddiad mewn allbwn newyddion amser brecwast, canol bore ac yn y prynhawn, ochr yn ochr â gweld mwy o gynnwys wedi'i rannu ar orsafoedd radio lleol ar adegau eraill.




CAFODD PORTFFOLIO RADIO RHWYDWAITH Y BBC FLWYDDYN GREF GYDAG YCHYDIG O GYNNYDD O RAN CYRHAEDDIAD A CHYNULLEIDFA.

Yn y llun gwelir y gantores R&B gyfoes, Alicia Keys, yn perfformio'n fyw ar sioe Trevor Nelson, a ddarlledwyd ar BBC 1Xtra a BBC Radio 1 ar yr un pryd.



## MAE BBC WORLD SERVICE YN PARHAU I GAEL EI CHANMOL GAN GYNULLEIDFAOEDD AM FESURAU ANSAWDD MEGIS YMDDIRIEDAETH, GWRTHRYCHEDD A PHERTHNASEDD.

### Arolygon gwasanaeth yn 2010

Mae ein rhaglen o arolygon gwasanaeth yn parhau yn 2010, gydag arolygon o BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC 7 bellach ar waith ac arolygon o orsafoedd radio'r BBC ar gyfer pob gwlad ddatganoledig i ddechrau'n hwyrach yn 2010.

### AR-LEIN

Mae BBC Ar-lein bellach wedi sefydlu ei hun fel un o wasanaethau pwysicaf y BBC o ran nifer y defnyddwyr rheolaidd ac fel ffordd o ddal i fyny â rhaglenni'r BBC.

Er bod ar-lein yn dal i fod yn farchnad sy'n newid yn gyflym iawn, rydym wedi gweld arwyddion bod ei dwf yn aeddfedu yn unol â'r farchnad fand-eang gyffredinol, er bod y defnydd o feysydd unigol, megis BBC iPlayer ac arlwy dyfeisiau symudol y BBC, yn tyfu'n gryf. Rydym bellach yn ystyried cynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i gyfuno BBC Ar-lein gyda'r nod o leihau gwariant 25%.

### NEWYDDION

Mae gan gynulleidfaoedd feddwl mawr o BBC Newyddion yn gyffredinol o hyd, ac roedd y canfyddiadau ohono fel gwasanaeth cywir a diduedd y gellir ymddiried ynddo oll yn sefydlog. Parhaodd cyrhaeddiad i fod yn gryf sef 79% ar gyfer oedolion y DU. Roeddem yn falch o weld bod y prif fwletinau newyddion ar deledu a radio'r BBC naill ai wedi cynnal neu gynyddu eu niferoedd a bod y defnydd o BBC Newyddion ar-lein yn parhau i dyfu. Cynyddodd cyrhaeddiad sianel BBC News a BBC Parliament ychydig eleni.

Rydym wedi ystyried y dirywiad graddol yng nghyrhaeddiad materion cyfoes ar deledu fel rhan o'n harolwg o BBC One a BBC Two a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar hyn yn ein hadroddiad terfynol yn ystod hydref 2010. Credwn fod cynnal ansawdd ac integredd golygyddol allbwn materion cyfoes yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel iawn i'r BBC, a byddwn yn disgwyl i wasanaethau prif ffrwd y BBC gynnwys cynulleidfa eang mewn ystod eang o raglennu materion cyfoes manwl.

Yn ein harolwg o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau a gyhoeddwyd y llynedd, cafwyd bod y BBC yn wynebu'r her gynyddol o gynnwys pobl ifanc ym maes newyddion, yn enwedig y rhai o gartrefi incwm is. Mae cynnwys pob cynulleidfa ym maes newyddion yn ganolog i'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpas cyhoeddus ar ddinasyddiaeth, ac, er bod rhai rhaglenni megis *Newsbeat* ar BBC Radio 1 ac *8pm Update* ar BBC One wedi helpu i ryw raddau, mae'r her hon yn dal i fod yn un sylweddol. Byddwn yn parhau i gyflwyno adroddiadau arni.

### CHWARAEON

Perfformiodd BBC Chwaraeon yn gryf eleni gydag ychydig o gynnydd mewn cyrhaeddiad, a gafodd hwb gan Fformiwla Un. Mae cynnwys chwaraeon wedi bod yn hynod boblogaidd ar BBC Ar-lein, gyda'r defnydd o ddyfeisiau symudol yn tyfu'n gryf. Yn ein hymateb i arolwg y Llywodraeth o ddigwyddiadau a restrir, gwnaethom gefnogi cadw'r digwyddiadau hyn fel darllediadau am ddim gan fod gwerth clir mewn gweld nifer fawr o bobl yn eu mwynhau. Rydym hefyd yn llawn gefnogi egwyddor y Bwrdd Gweithredol y dylai'r BBC flaenoriaethu darllediadau o'r digwyddiadau chwaraeon a'r digwyddiadau eraill hynny sydd fwyaf arwyddocaol i'r DU.

### BBC WORLD SERVICE

Ariennir BBC World Service gan Gymorth Grant Seneddol yn hytrach na ffi'r drwydded. Cyrhaeddodd 180 miliwn o bobl y llynedd, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol, a lywiwyd yn bennaf gan y ffaith bod llai yn gwrando ar y gwasanaeth radio tonfedd fer mewn ardaloedd allweddol megis India a Bangladesh. Yn gyffredinol, parhaodd gorsafoedd BBC World Service i gael eu canmol gan gynulleidfaoedd am fesurau ansawdd megis ymddiriedaeth, gwrthrychedd a pherthnasedd.

Fel rhan o'n hymchwil cynulleidfa ar BBC World Service, eleni canolbwyntiwyd ar BBC Hausa yn Nigeria, Niger a Ghana a BBC Urdu ym Mhacistan. Mae cynulleidfaoedd o'r farn bod y ddau wasanaeth yn darparu newyddion a gwybodaeth gredadwy o ansawdd uchel ar gyfer eu priod ardaloedd. Mae'n allweddol bod pob gwasanaeth yn ymchwilio i fynediad symudol gan fod rhai rhwystrau i ddarparu gwasanaeth BBC Hausa a all effeithio ar ansawdd profiad y gwrandäwr; ac, yn achos BBC Urdu, erys her i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd iau.

Yn y llun gwelir Owen Bennett-Jones yn gohebu o Yemen.

# CYRRAEDD SAFONAU GOLYGYDDOL

## MAE'R CYHOEDD YN DISGWYL I'R BBC GYRRAEDD Y SAFONAU UCHAF, SY'N GWBL GYFIAWN. CYNNAL SAFONAU GOLYGYDDOL YW UN O GYFRIFOLDEBAU PWYSICAF YR YMDDIRIEDOLAETH.

Yn ogystal â phennu Canllawiau Golygyddol y BBC, mae'r Ymddiriedolaeth, drwy'r Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC), yn sicrhau ei fod yn glynu wrthynt drwy weithredu fel y cyflafareddwr terfynol ym mhroses gwyno'r BBC. Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymdriniodd yr ESC â nifer o apeliadau arwyddocaol gan gynnwys:

- **Reef Television:** cafwyd bod rhai o'r rhaglenni a wnaed gan Reef TV i'r BBC, fel rhan o'r gyfres *Sun, Sea and Bargain Spotting, Trash to Cash* a *Dealers: Put Your Money Where Your Mouth Is* yn cynnwys arferion annerbyniol a allai danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC (megis aelodau o staff yn prynu pethau fel petaent yn aelodau o'r cyhoedd). Bu'n rhaid i'r BBC ymddiheuro ar yr awyr a hefyd gyflwyno mesurau cydymffurfio newydd cyn y gallai Reef TV weithio i'r BBC eto. Ni chaiff y rhaglenni dan sylw eu hailddarlledu.
- ***Panorama*:** mae'r cyhoedd a'r BBC yn disgwyl i *Panorama*, sef prif raglen materion cyfoes BBC One, gyrraedd safonau uchel. Fodd bynnag, nodwyd achos difrifol o dorri canllawiau'r BBC ar gywirdeb a natur ddiduedd yn *What's next for Craig*, lle na chafodd canfyddiadau astudiaeth wyddonol eu cyflwyno'n gywir. Bu'n rhaid i'r rhaglen gywiro'r gwall ac ymddiheuro ar yr awyr.
- **BBC Radio 1:** torrwyd ar breifatrwydd merch a ffoniodd y *Breakfast Show* pan wnaeth gwestai yn y stiwdio, aelod o'r band Prydeinig N-Dubz, alwadau difrïol iddi ar ôl cael ei rhif ffôn oddi ar sgrîn destun yn y stiwdio. Yn dilyn hynny cafodd ymddiheuriad gan yr aelod o'r band a'r BBC. Fodd bynnag, roedd yr Ymddiriedolaeth yn fodlon i hyn ddigwydd heb yn wybod i aelodau'r tîm cynhyrchu, a bod y BBC wedi cymryd camau i sicrhau na allai ddigwydd eto.
- ***Mock the Week* a *The Most Annoying People of 2008*:** dangosodd y ffaith y cadarnhawyd apeliadau ynghylch cyfeiriadau sarhaus at bobl go iawn ar y ddwy raglen hyn bryder parhaus am y defnydd o gyfeiriadau di-chwaeth a bychanol. Dilynodd y rhain gwynion a gadarnhawyd y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r *Jonathan Ross Show* a'r *Russel Brand* Show. Gweler tudalen 1-24 am ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ei wneud i sicrhau bod y BBC yn pennu safonau uchel.

### YMDRIN Â CHWYNION YN BRIODOL

Mae gan y BBC fframwaith ffurfiol ar waith i sicrhau bod y broses o ymdrin â chwynion yn glir, yn agored, yn deg ac yn effeithlon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro'r fframwaith i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion mewn ffordd briodol.

- **Dangosyddion perfformiad allweddol:**
  - Atebodd y BBC fwy na 220,000 o gwynion rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010; atebwyd 94% o fewn deg diwrnod gwaith. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 97% pan gynhwyswn gwynion a gafodd eu cydnabod yn gychwynnol o fewn yr amser hwnnw.
  - Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymdriniodd yr ESC ag 80 o apeliadau, yr ymdriniwyd â 48% ohonynt o fewn y terfyn amser targed o 16 wythnos i dderbyn yr apêl. Mae hyn yn uwch na'r llynedd sef 9%, ond nid yw'n cyflawni ein targed serch hynny. Byddwn yn ymdrechu'n fwy i wella hyn y flwyddyn nesaf.
  - Cafodd y Panel Apeliadau Cyffredinol 38 o apeliadau, y derbyniwyd 28 ohonynt a chwblhawyd dau o'r rhain o fewn 60 diwrnod, gan adlewyrchu natur gymhleth nifer ohonynt. Er bod hyn yn siomedig, disgwylir cryn gynnydd y flwyddyn nesaf.
- **Ymarferion cudd:** pan wnaethom gymeradwyo'r fframwaith cwynion yn 2008, dywedwyd y byddem yn cynnal ymarfer 'cudd' i'w brofi ar waith. Cwblhawyd cynllun peilot bach yn 2009 a chynhelir ymarfer mwy o faint yn 2010, ac ar ôl hynny byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau.

# CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN

## FEL YMDDIRIEDOLWYR, RYDYM YN GYFRIFOL AM SICRHAU BOD FFI'R DRWYDDED YN CAEL EI GWARIO'N DDOETH, GYDA'R BBC YN CAEL Y GWERTH MWYAF O BOB PUNT A GAIFF EI GWARIO.

Ein rôl yw sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei gwario mewn ffyrdd sy'n bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cyflawni gwerth am arian. Mae ein Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth yn goruchwylio perfformiad cyllid a busnes y BBC, gan gadw llygad barcud ar ei anghenion ariannol a sut mae'n gwario ei incwm. Canolbwyntiwn ar bedwar maes:

- pennu cyllidebau ariannol ac amcanion
- gweithrediadau monitro
- rheoli risg
- arolygon penodol

### 1. PENNU CYLLIDEBAU ARIANNOL AC AMCANION

Bob blwyddyn adolygwn gyllid y BBC a'i gwestiynu'n ffurfiol ac, unwaith yr atebir ein cwestiynau a bod y newidiadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud, cymeradwywn gyllideb flynyddol y BBC ynghyd â'i gynlluniau ariannol tymor hwy. Adolygwn a diwygio lefel y cyllidebau gwasanaeth unigol fel y'u pennwyd yn eu trwyddedau gwasanaeth. Mae'r cyllidebau gwasanaeth presennol ar ein gwefan.

Lle y credwn ei bod yn briodol, gallwn hefyd bennu amcanion ariannol i lywio'r ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn rheoli gweithrediadau. Yn 2007 pennwyd targedau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ar lefel BBC cyfan a hefyd yn ymwneud yn benodol â ffioedd talent a chyflogau uwch reolwyr.

### 2. GWEITHREDIADAU MONITRO

Rydym yn monitro sefyllfa ariannol barhaus y BBC drwy gael adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol. Rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth am feysydd penodol y mae gennym ddiddordeb ynddynt, er enghraifft cydymffurfio â thrwyddedau gwasanaeth, gweithgareddau casglu ffi'r drwydded a'r newid i ddigidol, a lle yr ydym wedi pennu targedau effeithlonrwydd penodol yn flaenorol.

- **Cydymffurfio â chyllidebau trwyddedau gwasanaeth:** yn 2009/10, roedd pob gwasanaeth namyn dau yn cydymffurfio â'i gyllideb trwydded. Caiff gwasanaethau wario 10% yn fwy neu'n llai na'r gyllideb sylfaenol a nodwyd. Caiff y terfyn is ei gynnwys i ysgogi'r Ymddiriedolaeth i ystyried a fyddai gostyngiad sylweddol mewn gwariant yn cael effaith ar ddarparu'r gwasanaeth yn erbyn ei gylch gwaith. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolaeth yn croesawu tanwario sy'n deillio o effeithlonrwydd gwirioneddol nad yw'n effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth, fel gwasanaeth HDTV sydd wedi gweld arbedion sylweddol mewn costau contract. Roeddem yn pryderu'n fwy ynghylch tanwario BBC Radio 3, a ddeilliodd o gamddosbarthiad blaenorol ar ran y Bwrdd Gweithredol gyda pheth o'r gwariant y tu allan i'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedau gwasanaeth pan bennwyd y gyllideb sylfaenol. Mae'r llinell sylfaen hon wedi cael ei diwygio bellach ac felly ni ddisgwyliwn weld hyn eto.
- **Casglu ffi'r drwydded:** mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd benodol i sicrhau y cesglir ffi'r drwydded yn 'effeithlon, yn briodol ac yn gymesur'. Y llynedd cynhaliwyd astudiaeth fanwl o drefniadau casglu a gwnaethom rai argymhellion. Eleni rydym wedi bod yn monitro cynnydd y Bwrdd Gweithredol wrth weithredu'r argymhellion hyn a cheir rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 1-8.
- **Newid i ddigidol:** y Llywodraeth ac Ofcom sy'n gyfrifol am y broses o newid i ddigidol yn y DU, ond gofynnwyd i'r BBC helpu rhai grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas i addasu i'r newid drwy'r cynllun cymorth wedi'i dargedu. Ein rôl yn hyn o beth yw sicrhau bod proses y Bwrdd Gweithredol o weithredu'r cynllun yn darparu gwerth am arian. Hyd yn hyn mae'r cynllun wedi gwario llai na'r disgwyl am fod llai na'r disgwyl wedi cymryd rhan yn y cynllun. Caiff yr arian nad yw'n cael ei wario ei neilltuo gan na all y BBC ei ddefnyddio. Yn ystod y flwyddyn cytunodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r BBC ar y ffordd y caiff y fath danwario ei ddychwelyd i'r DCMS.
- **Targed effeithlonrwydd o 3%:** soniwn am gynnydd y BBC yn erbyn y targed hwn ar dudalen 1-7.
- **Costau talent:** Y llynedd pennwyd targed i'r Bwrdd Gweithredol i wneud arbedion sylweddol mewn ffioedd talent dros weddill cyfnod ffi'r drwydded bresennol. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 1-8.
- **Cyflog uwch reolwyr:** pennwyd targed ar gyfer y Bwrdd Gweithredol i leihau'r swm a werir ar gyflogau uwch reolwyr yn sylweddol (gweler tudalen 1-25). Mae'n rhy gynnar nodi cynnydd yn erbyn y targed hwn eto ond byddwn yn ailedrych arno eto.

## 3. RHEOLI RISG

Bob blwyddyn adolygwn weithgareddau rheoli risg y BBC i sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â'r prif risgiau gweithredu sy'n wynebu'r BBC. Gwnawn hyn drwy ystyried adroddiadau rheoli risg rheolaidd a holi'r Bwrdd Gweithredol, yr archwilwyr allanol, archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor Archwilio.

Weithiau bydd angen cynnal arolwg manylach. Y llynedd gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol roi sicrwydd i ni ynghylch statws ac ansawdd presennol adroddiadau rheolwyr ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC. Adolygwyd systemau'r BBC, gan eu hasesu yn erbyn rhai sefydliadau eraill. Er nad oes unrhyw broblemau dybryd, nodwyd meysydd lle y gallai'r BBC ddatblygu ei systemau ymhellach.

## 4. AROLYGON PENODOL

Cynhaliwn raglen dreigl o astudiaethau gwerth am arian, a gomisiynir yn bennaf gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r astudiaethau hyn yn rhoi cipolwg annibynnol i ni ar weithgareddau'r Bwrdd Gweithredol.

Eleni comisiynwyd dwy astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: rheolaeth y BBC o'i ddarllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth mawr, a rheolaeth y BBC o dri phrosiect ystâd mawr. Mae adroddiadau llawn, ein hargymhellion a'r camau gweithredu dilynol, ar ein gwefan.

- **Digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth mawr:** edrychodd yr astudiaeth hon ar ba mor effeithiol mae gweithdrefnau rheoli'r BBC unwaith y gwneir penderfyniad i ddarlledu o ddigwyddiad. Ystyriodd yr astudiaeth chwe digwyddiad; Gemau Olympaidd Beijing yn 2008; Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA yn 2008 (Euro 2008); Pencampwriaeth Wimbledon; Gŵyl Celfyddydau Perfformio Glastonbury (Glastonbury); Proms y BBC; a BBC Radio 1's *Big Weekend*.
  - Gwnaed nifer o ganfyddiadau cadarnhaol, ond nododd rai meysydd lle y gallai'r BBC wella ei brosesau. Calonogwyd yr Ymddiriedolaeth am fod llawer o'r pwyntiau a nodwyd eisoes yn cael eu gweithredu wrth i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gynnal ei hastudiaeth.
  - Cafodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y BBC wedi cyflwyno darllediadau o'r chwe phrif ddigwyddiad ar amser ac o fewn y cyllidebau terfynol i raddau helaeth. Er bod y BBC yn defnyddio personél cynhyrchu profiadol ar gyfer ei ddarllediadau, nododd fod y BBC wedi cydnabod y gallai diffyg fframwaith rheoli ffurfiol wedi'i gofnodi neu weithdrefn gynllunio ffurfiol fod wedi peri risgiau diangen i'r BBC. Ychwanegodd fod y BBC bellach wedi rhoi prosesau cynllunio mwy ffurfiol ar waith.
  - Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth yr holl argymhellion a ddeilliodd o'r astudiaeth a chytunodd ar gynllun gweithredu gyda'r Bwrdd Gweithredol. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiad i ni ar gynnydd.

Yn y llun gwelir y gantores Alesha Dixon yn perfformio yn BBC Radio 1's *Big Weekend* eleni.

*Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ddigwyddiadau mawr.



"CYFLWYNODD Y BBC DDARLLEDIADAU O'R CHWE PHRIF DDIGWYDDIAD AR AMSER AC O FEWN Y CYLLIDEBAU TERFYNOL I RADDAU HELAETH."*

- **Prosiectau ystad mawr:** edrychodd yr astudiaeth hon ar reolaeth y BBC o brosiectau'r Ganolfan Ddarlledu, Pacific Quay a Salford Quay. Adolygodd p'un a gaiff y prosiectau eu cyflawni'n unol â'r cynllun gwreiddiol a luniwyd pan neilltuwyd adnoddau, a'r diweddariad i'r gyllideb a'r amserlen.
  - Nododd yr astudiaeth fod methiannau sylweddol ar gam un o'r Ganolfan Ddarlledu (a gofnodwyd gryn dipyn yn barod) a gymeradwywyd yn 2003 ac a gyflawnwyd yn 2006.
  - Cadarnhaodd ganfyddiadau'r Ymddiriedolaeth ei hun a nododd ers i Lywodraethwyr y BBC, ac yn dilyn hynny'r Ymddiriedolaeth, ymyrryd gyntaf yn uniongyrchol i roi'r broses o ddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu ar ben ffordd eto, fod y BBC wedi gwella ei reolaeth o brosiectau ystad mawr yn sylweddol.
  - Cwblhawyd yr astudiaeth i Pacific Quay (a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2007), ar amser ac yn unol â'r gyllideb (yn erbyn achos buddsoddi diwygiedig cwmpas y gwaith adeiladu ehangach a gymeradwywyd ym mis
  - Cafodd yr astudiaeth fod Salford Quay ar amser ac yn unol â'r gyllideb ar hyn o bryd, ac ar y trywydd iawn i fod yn gwbl weithredol ar ddiwedd 2011. Trosglwyddwyd yr adeilad cyntaf i'r BBC ym mis Medi 2009, fis yn gynharach na'r disgwyl.
  - Yn gyffredinol gwnaeth yr astudiaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r broses o reoli prosiectau mawr. Gwnaethom dderbyn y rhain a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd fe'i gwnaed yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol adolygu pob prosiect cyfalaf mawr yn erbyn yr arfer gorau a amlygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael sylw llawn y BBC.

# YMDDIRIEDOLAETH Y BBC: CYNORTHWYO A HERIO'R BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r Ymddiriedolaeth yn bodoli i sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Eleni rydym wedi cymryd camau pendant i gynorthwyo a herio'r Bwrdd Gweithredol i ddarparu rhaglennu a gwasanaethau o ansawdd uchel, ac yn y pen draw sicrhau bod pob dime goch o ffi'r drwydded yn cael ei gwario'n ddoeth er mwyn rhoi'r gwerth gorau am arian i'n cynulleidfaoedd. Ymhlith y gwaith pwysig sy'n mynd rhagddo eleni mae:

- cyrhaeddiad neu natur unigryw? Neu'r ddau?
- herio ymddygiad annerbyniol ar yr awyr
- diwygio cyflogau uwch reolwyr mewn ffordd radical
- pennu terfynau newydd ar gyfer gwasanaethau masnachol y BBC
- camu'n agosach at deledu a all gysylltu â'r rhyngrwyd i bawb
- galluogi'r cyhoedd i leisio barn ar ddyfodol y BBC



Mae Glastonbury yn un o blith nifer o wyliau a digwyddiadau a gynhelir yn y DU ac ar draws y byd y mae gwasanaethau'r BBC yn darlledu ohonynt bob blwyddyn.



# PERFFORMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH

# NEWID GWIRIONEDDOL I DALWYR FFI'R DRWYDDED

## EIN NOD YW SICRHAU BOD PAWB SY'N TALU FFI'R DRWYDDED YN CAEL Y GORAU O'R BBC. MAE EFFEITHIAU AMGYLCHEDD ECONOMAIDD HERIOL WEDI PWYSO'N DRWM AR FEDDYLIAU PAWB DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF, A BU HYN YN WIR AM YR YMDDIRIEDOLAETH HEFYD.



Mae cyflawni gwerth am arian wedi chwarae rhan ganolog yn ein holl waith, yn enwedig wrth adolygu gwasanaethau BBC Radio 2 a BBC 6 Music, adolygu cyflogau'r Bwrdd Gweithredol, profi cynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer Prosiect 'Canvas' ac asesu effaith a gweithgareddau BBC Worldwide.

Rydym hefyd wedi clywed cryn dipyn am yr hyn mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi yn y BBC. Bu safonau uchel, ansawdd a natur unigryw yn themâu allweddol, ac mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn ein harolwg o Ganllawiau Golygyddol y BBC.

Mae byd y cyfryngau yn newid yn gyson, ac mae'n rhaid i'r BBC esblygu'n barhaus er mwyn parhau i gynnig y gwerth gorau am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom gyhoeddi arolwg cynhwysfawr o strategaeth y BBC, gan wahodd y cyhoedd i leisio barn ar ei ddyfodol.

Fel Ymddiriedolwyr, ymfalchïwn yn ein rôl fel gwarcheidwaid a hyrwyddwyr buddiannau talwyr ffi'r drwydded. Yn ystod ein gwaith eleni, rydym bob amser wedi anelu at gael ein llywio gan y cyfrifoldeb canolog hwn.

# CYRHAEDDIAD NEU NATUR UNIGRYW? NEU'R DDAU?

## YR YMDDIRIEDOLAETH YN ADOLYGU BBC RADIO 2 A BBC 6 MUSIC

Mae'r broses o adolygu gwasanaethau yn rhan hanfodol o'n gwaith. Edrychwn ar bob gwasanaeth o leiaf unwaith bob pum mlynedd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gwaith; bod y cylch gwaith dan sylw yn dal i fod yn berthnasol i gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus; ac yn y pen draw fod talwyr ffi'r drwydded o'r farn eu bod yn cael gwerth da am arian.

Y llynedd cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arolwg cynhwysfawr o BBC Radio 2 a BBC 6 Music a chawsom tua 4,700 o ymatebion i'n hymgynghoriad cyhoeddus. Dysgwyd mai BBC Radio 2 yw'r orsaf fwyaf poblogaidd yn y DU, a'i bod yn uchel iawn ei bri. Mae gwrandawyr BBC 6 Music yn ei hoffi'n fawr, er bod nifer y gwrandawyr yn gymharol fach.

Wynebwyd heriau penodol wrth adolygu'r ddwy orsaf radio. Er bod gan BBC Radio 2 apêl eang, credai cynulleidfaoedd fod ei chynnwys yn ystod oriau brig yn llai unigryw na'i chynnwys ar adegau eraill. Daethom i'r casgliad y dylai BBC Radio 2 ddefnyddio ei maint a'i dylanwad i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn, hyd yn oed petai hynny'n arwain at golli peth o'i chynulleidfa. Cafwyd hefyd bryderon gan y sector masnachol bod yr orsaf yn targedu cynulleidfaoedd iau, er mai ei chylch gwaith oedd apelio i bob oedran dros 35 oed. Rydym wedi gofyn i BBC Radio 2 sicrhau nad yw oedran cyfartalog ei chynulleidfa'n gostwng ac y dylai'r orsaf ystyried sut y gallai ddiwallu anghenion pobl dros 65 oed yn well.

Gwnaethom osod her wahanol i BBC 6 Music. Er bod yr orsaf yn amlwg yn unigryw iawn, mae ei chyrhaeddiad yn isel iawn. Gwaethygir y sefyllfa hon gan ymwybyddiaeth isel - dim ond 20% o oedolion sy'n gwybod amdani. Felly, daethom i'r casgliad y dylai BBC 6 Music godi ymwybyddiaeth a chynyddu ei chynulleidfa, gan apelio i ystod ehangach o bobl, heb golli ei natur unigryw.

Mae cynnig diweddar y Bwrdd Gweithredol i gau BBC 6 Music wedi rhoi llawer iawn o gyhoeddusrwydd iddi mewn gwirionedd. Byddwn yn ystyried ymateb y cyhoedd i'r cynnig hwnnw maes o law pan benderfynwn ar ddyfodol yr orsaf.

**Mai 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn lansio arolwg gwasanaeth o BBC Radio 2 a BBC 6 Music gydag ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil cynulleidfa

**Gorffennaf 2009**
- Ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben

**Chwefror 2010**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi ei chasgliadau

### BETH YW YSTYR NATUR UNIGRYW

Mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym yn aml eu bod yn gwerthfawrogi'r BBC am ei natur unigryw - hynny yw, mae'n cynnig rhywbeth sy'n wahanol i ddarlledwyr eraill. Lle y ceir beirniadaeth, mae'n ymwneud yn aml â'r ffaith bod pobl wedi'u siomi nad yw'r BBC wedi bod yn ddigon unigryw. Ond beth mae natur unigryw yn ei olygu i'r BBC mewn gwirionedd? Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i ddiffinio ystyr y term, ac wedi llunio cyfres glir o feini prawf ar gyfer gweithgareddau'r BBC.

#### Pedwar gwerth

Cafodd natur unigryw ei hymgorffori mewn pedwar gwerth. Maent yn deillio o'r ffaith bod y BBC yn y sefyllfa freintiedig o gael ei ariannu gan arian cyhoeddus, sy'n ei alluogi i fwrw ati i gyflawni'r pedwar gwerth canlynol i'r fath raddau na all sefydliadau masnachol ei wneud yn aml:

- **safonau golygyddol uchel:** mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r BBC osod y safonau uchaf o degwch, cywirdeb a natur ddiduedd.
- **uchelgais greadigol a golygyddol:** mae gan y BBC y rhyddid i gymryd risgiau, torri tir newydd a herio.
- **amrywiaeth a dyfnder:** gan fod yn rhaid i bawb sy'n gwylio'r teledu gael trwydded, mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu ar gyfer yr ystod ehangaf o chwaeth a diddordebau, i'r graddau hynny sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd.
- **cynnwys sy'n canolbwyntio ar y DU a thalent frodorol:** mae'n ofynnol i'r BBC adlewyrchu pob rhan o'r DU ac mae ganddo'r rhyddid i feithrin talent newydd, brodorol a all beri risg.

Mae'r ddealltwriaeth well hon o ystyr natur unigryw yn llywio'r Ymddiriedolaeth wrth iddi ystyried yr arolwg o strategaeth y Bwrdd Gweithredol, er bod mwy o waith i'w wneud. Yn arbennig, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol roi mwy o wybodaeth iddi am y ffordd y mae'r gwerthoedd craidd hyn yn gymwys i'r mathau gwahanol o allbwn a sut y gallem fesur natur unigryw'r BBC mewn ffordd well. Byddwn yn ymhelaethu ar y gwaith hwn yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.



*Sunday Half Hour* y Tad Brian Darcy ar BBC Radio 2.

# HERIO YMDDYGIAD ANNERBYNIOL AR YR AWYR

## YR YMDDIRIEDOLAETH YN RHOI MWY O BWYSLAIS AR SAFONAU A CHYDYMFFURFIAETH YN UNOL AG AGWEDDAU'R CYHOEDD

Wrth i gymdeithas newid, mae'r hyn a ystyrir yn dderbyniol yn y byd darlledu hefyd yn newid. Fodd bynnag, fel sefydliad a ariennir gan ffi'r drwydded, disgwylir i'r BBC gyrraedd safonau sy'n uwch na rhai sefydliadau eraill ym myd y cyfryngau, sy'n gwbl gyfiawn. Yn wir, mae rhai grwpiau o'r cyhoedd yn disgwyl i'r BBC gyrraedd safonau sy'n gostwng mewn mannau eraill.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau llawer o waith ar safonau golygyddol, a ysgogwyd gan achosion o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC yn 2007, 2008 a 2009, gyda chythrwfl Ross/Brand ymhlith y mwyaf difrifol a'r un a gafodd y mwyaf o sylw. Yn sgîl y cwynion a gafwyd, a natur yr achosion eu hunain, gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Gweithredol gynnal peth gwaith ymchwil ar yr hyn sy'n dderbyniol ym marn y cyhoedd wrth feddwl am chwaeth a safonau, a hefyd adolygu cydymffurfiaeth olygyddol o ran Sain a Cherddoriaeth.

### YR HYN SY'N DDERBYNIOL I'R CYHOEDD

Mae'r Ymddiriedolaeth o blaid gweld y BBC yn cymryd risgiau fel rhan o'r broses o greu'r rhaglenni mwyaf unigryw a difyr, ond mae hefyd yn disgwyl iddo gyrraedd y safonau uchaf posibl. Cydnabyddwn fod tyndra bob amser yn bodoli rhwng sicrhau na chaiff y broses greadigol ei llesteirio gormod a sicrhau nad yw cynnwys yn sarhaus heb fod angen. Mynegodd y cyhoedd y pryder hwn wrth wneud y gwaith ymchwil ar chwaeth a safonau. Nid oedd pobl am i'r BBC fod yn rhy ofalus, ond nid oedd yn dderbyniol bychanu pobl go iawn yn eu barn hwy. Cyflëwyd y neges hon yn yr arolwg o'r Canllawiau Golygyddol a gynhaliwyd yn ystod ail hanner 2009 a dechrau 2010.

### DILYN Y CANLLAWIAU

Y mater pwysig arall oedd cydymffurfiaeth â'r Canllawiau Golygyddol, sy'n gymwys i holl raglennu'r BBC. Sain a Cherddoriaeth a wnaeth beri'r pryder mwyaf yn dilyn methiant y *Russell Brand Show* i gydymffurfio â safonau golygyddol a'r methiannau mewn perthynas â chynnal cystadlaethau a ddaeth i'r amlwg yn 2007 a 2008. Yn dilyn y newidiadau y gwnaethom ofyn amdanynt yn 2008, cynhaliwyd arolwg dilynol annibynnol o gydymffurfiaeth yn 2009 a ddangosodd newid gwirioneddol mewn diwylliant, er i ni nodi i rai o'r gofynion fod yn rhy llym.

### SICRHAU EIN BOD WEDI LLWYDDO

Bu'r gwaith ymgynghori ac ymchwil a wnaed gennym ar y Canllawiau Golygyddol newydd yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau ein bod wedi cael y cydbwysedd cywir. Bu'n ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol gynnwys geiriad yn y Canllawiau i ymdrin â'r pryder 'ni ddylid dathlu sylwadau sy'n rhy frawychus, sarhaus, ymwthiol, ymosodol na difrïol at ddibenion adloniant'. Cadarnhaodd yr ymatebion mai hwn oedd y trywydd cywir a bodlonodd ddisgwyliadau'r cyhoedd ynghylch y safonau y maent yn disgwyl i'r BBC eu cyrraedd.

### CIPOLWG AR GANLLAWIAU GOLYGYDDOL

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn amlinellu'r safonau rydym yn eu disgwyl, waeth beth fo'r cyfrwng. Fe'u cynlluniwyd ar gyfer pawb sy'n gwneud cynnwys i'r BBC, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gweithio i ni, er mwyn eu helpu i ymdrin â phenderfyniadau golygyddol anodd. Maent hefyd yn ffurfio'r fframwaith sy'n sail i ystyried cwynion. Mae'r Canllawiau'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- y gwirionedd a chywirdeb
- natur ddiduedd ac amrywiaeth barn
- integredd ac annibyniaeth olygyddol
- gweithredu er budd y cyhoedd
- tegwch
- preifatrwydd
- niwed a sarhad
- plant
- atebolrwydd

**Tachwedd 2008**
- Yr Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ymchwilio i chwaeth a safonau yn sgîl cyfres o achosion o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC, gyda chythrwfl Ross/Brand y mwyaf amlwg yn eu plith a hefyd yn cyhoeddi y bydd yn cynnal arolwg annibynnol o gydymffurfiaeth o ran Sain a Cherddoriaeth

**Mai 2009**
- Y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei waith ymchwil ar chwaeth a safonau i'r Ymddiriedolaeth; hwn yn dod yn rhan o'r arolwg o Ganllawiau Golygyddol y BBC

**Medi 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi ei chanfyddiadau bod *Mock the Week* a *The Most Annoying People of 2008* wedi achosi sarhad
- Yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo'r Canllawiau Golygyddol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**Hydref 2009**
- ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil cynulleidfa ar y Canllawiau Golygyddol drafft yn dechrau

**Chwefror 2010**
- ymchwil cynulleidfa ar y Canllawiau'n dod i ben

**Mawrth 2010**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi adroddiad ar gydymffurfiaeth o ran Sain a Cherddoriaeth

**Haf 2010**
- Canllawiau Golygyddol newydd i'w cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer eu cyhoeddi yn yr hydref

# DIWYGIO CYFLOGAU UWCH REOLWYR MEWN FFORDD RADICAL

## YR YMDDIRIEDOLAETH YN CYMRYD CAMAU I LEIHAU'R GWARIANT AR GYDNABYDDIAETH

Ym mis Chwefror 2009, mewn hinsawdd economaidd ddifrifol, gwnaethom herio'r Bwrdd Gweithredol i ddiwygio cyflogau uwch reolwyr. Yn ein barn ni roedd yn briodol i'r BBC arwain y ffordd o ran y mater hwn, fel sefydliad cyhoeddus mawr.

Ym mis Hydref 2009, yn dilyn trafodaeth gyda'r Bwrdd Gweithredol, cyhoeddwyd strategaeth newydd radical i leihau'r gwariant ar gyflogau uwch reolwyr yn sylweddol.

Rôl yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC, sy'n golygu cyflawni gwerth am arian. Wrth gwrs, mae faint o arian y mae'r BBC yn ei dalu i'w bobl yn rhan fawr o hynny. Rhaid i'r trywydd a ddilynwn gyflawni cydbwysedd anodd rhwng sicrhau bod y BBC yn talu digon i ddenu'r bobl orau i ddarparu'r gwasanaeth unigryw o ansawdd uchel y mae talwyr ffi'r drwydded yn ei ddisgwyl, tra'n bodloni disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded y bydd y BBC yn cynnig gwerth am arian. Credwn y bydd canlyniadau'r arolwg yn cyflawni'r cydbwysedd hwnnw.

Dros y flwyddyn i ddod bydd yn flaenoriaeth i ni sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cyflawni'r targedau heriol o ran lleihau cyflogau uwch reolwyr yr ydym wedi cytuno arnynt.

### PWYNTIAU ALLWEDDOL DIWYGIO CYFLOGAU

- Lleihau'r gwariant ar gyflogau uwch reolwyr 25% dros dair blynedd a hanner
- lleihau nifer y swyddi uwch reolwyr yn sylweddol: 18% dros yr un cyfnod
- Bwrdd Gweithredol: rhewi cyflogau am dair blynedd a hanner arall; atal bonysau am gyfnod amhenodol
- uwch reolwyr/cyfarwyddwyr: rhewi cyflogau ac atal bonysau am ddwy flynedd arall
- strategaeth cyflogau newydd i holl uwch reolwyr y BBC

**Chwefror 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol adolygu cydnabyddiaeth

**Hydref 2009**
- Y Bwrdd Gweithredol yn adrodd yn ôl
- Yr Ymddiriedolaeth yn cytuno ar gynigion
- dechrau eu rhoi ar waith

**Gorffennaf 2013**
- y broses o gyflwyno'r cynigion yn dod i ben

### ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL 2010

**1. Cyfarwyddwr Cyffredinol**

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol, prif olygydd a Chadeirydd Bwrdd Gweithredol y BBC. Ni sy'n pennu cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Awn ati i wneud hynny drwy gynnig pecyn sy'n denu ac yn cadw'r math o unigolyn sydd ei angen i gyflawni'r rôl heriol hon a darparu arweinyddiaeth effeithiol. Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol, pensiwn a'r opsiwn i'w ystyried am fonws sy'n seiliedig ar berfformiad, er, ynghyd â phob cyfarwyddwr gweithredol arall, atelir bonysau ar hyn o bryd. Caiff y Cyfarwyddwr Cyffredinol gar â gyrrwr a ddefnyddir ganddo'n bennaf at ddibenion busnes yn Llundain; ni chaiff gar personol na lwfans tanwydd.

Eleni, yn unol â'r cynigion i adolygu cyflogau y cytunwyd arnynt ym mis Hydref 2009, ni chafodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Mark Thompson, gynnydd yn ei gyflog sylfaenol, na bonws ar sail perfformiad. Cynhelir yr arolwg nesaf posibl o gyflogau ym mis Awst 2013.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiad blynyddol o berfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'n parhau i gyflawni ei amcanion a chredwn ei fod yn cynnig egni a chreadigrwydd i'r rôl o arwain y BBC.

**2. Cyfarwyddwyr anweithredol**

Caiff y Cyfarwyddwyr anweithredol ffi a bennir gan yr Ymddiriedolaeth, sy'n adlewyrchu natur gymhleth y rôl a'r amser sydd ei angen. Pennir ffioedd gan gyfeirio at gyfraddau corfforaethau eraill yn y DU, ond ar lefel sy'n golygu nad yw'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn dibynnu ar y BBC yn ariannol.

Caiff pob Cyfarwyddwr anweithredol ffi sylfaenol (£35,700 y flwyddyn ar hyn o bryd); caiff cadeirydd pob pwyllgor ffi ychwanegol (£5,100 y flwyddyn ar hyn o bryd). Caiff yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ffi ychwanegol o £10,200 y flwyddyn. Caiff y Cyfarwyddwyr anweithredol eu had-dalu am dreuliau, a chaiff unrhyw dreth sy'n codi o'r treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ffioedd Cyfarwyddwyr anweithredol bob yn ail flwyddyn; cynhelir yr arolwg nesaf eleni, a daw i rym ym mis Ionawr 2011.

**3. Cyfarwyddwyr gweithredol**

O fewn strategaeth a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol sy'n pennu cydnabyddiaeth unigol cyfarwyddwyr gweithredol a chyflwyna adroddiad ffurfiol sy'n rhoi sicrwydd i ni ei fod wedi dilyn y strategaeth hon. Yn sgîl adolygu adroddiad eleni, daethom i'r casgliad fod ein strategaeth wedi cael ei dilyn, ac felly derbyniwyd sicrwydd y Pwyllgor yn hyn o beth.

Fel y disgrifir uchod, ym mis Hydref 2009 cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar leihad sylweddol yng nghost uwch reolwyr ymhob rhan o wasanaethau cyhoeddus y BBC. Roedd hyn yn cynnwys strategaeth newydd ar gyfer cyflogau uwch reolwyr, a fydd yn arwain at ffocws cliriach ar ddull y BBC o dalu cyflogau fel sefydliad a ariennir gan arian cyhoeddus.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am berfformiad y cyfarwyddwyr gweithredol. Mae adroddiad Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol i'w weld yn adran lawrlwytho www.bbc.co.uk/annualreport.

# TERFYNAU NEWYDD AR GYFER GWASANAETHAU MASNACHOL Y BBC

## YR YMDDIRIEDOLAETH YN ADOLYGU BBC WORLDWIDE



Drwy wneud elw masnachol ar gynnwys gwerthfawr y BBC, mae BBC Worldwide yn rhoi budd ariannol mawr i dalwyr ffi'r drwydded ac economi greadigol ehangach y DU, yn ogystal â hyrwyddo ac atgyfnerthu enw da'r BBC dramor. Roedd sicrhau bod prif gangen fasnachol y BBC yn glynu wrth ei chylch gwaith ac yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus, yn sensitif i bryderon masnachol eraill, wrth wraidd arolwg yr Ymddiriedolaeth o Worldwide, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2008.

Cymerodd ein harolwg fwy o amser na'r disgwyl, oherwydd roeddem am ystyried adroddiad Prydain Ddigidol, a oedd yn cynnwys cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Worldwide. Fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa i gyhoeddi cyfres o newidiadau i roi terfynau cliriach i Worldwide a phennu ffocws i'w gweithgareddau, yn enwedig ym marchnad y DU, heb amharu ar ei gallu i fod yn endid proffidiol, llawn ffyniant.

### PRIF THEMÂU'R AROLWG

- newid y strwythur llywodraethu er mwyn cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus a lleihau unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng y Bwrdd Gweithredol a BBC Worldwide
- cefnogi'r syniad o gangen fasnachol i wneud y mwyaf o asedau'r BBC er budd talwyr ffi'r drwydded
- cadarnhau trefniadau 'cynnig cyntaf', lle mae Worldwide yn cael y cyfle i brynu hawliau'r BBC cyn eu cynnig i gystadleuwyr, ond mae angen gwneud mwy o waith meincnodi er mwyn sicrhau bod y strwythur prisio'n deg
- sicrhau bod gweithgareddau BBC Worldwide yn canolbwyntio ar gael y gwerth mwyaf o eiddo deallusol y BBC ei hun
- rhoi'r gorau i weithgarwch nad yw'n unol â brand y BBC
- rhoi'r gorau i achosion o uno a chaffael oni bai bod amgylchiadau eithriadol

Yn y llun gwelir *Antiques Roadshow*, fformat sydd wedi cael ei werthu dramor yn llwyddiannus.

**Gorffennaf 2008**
- Yr Ymddiriedolaeth yn lansio arolwg o BBC Worldwide

**Mawrth 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi adroddiad interim; rhoi'r gorau i'r arolwg yn ffurfiol tra bo canlyniadau gwaith Prydain Ddigidol y Llywodraeth yn yr arfaeth

**Medi 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi newidiadau i'r broses o lywodraethu BBC Worldwide

**Tachwedd 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi terfynau newydd ar weithgareddau BBC Worldwide

### CIPOLWG AR BBC WORLDWIDE

BBC Worldwide yw prif gangen fasnachol y BBC ynghyd ag un o'i is-gwmnïau sydd o dan berchenogaeth lawn. Ei nod yw galluogi'r BBC i gael y gwerth mwyaf o gynnwys y mae talwyr ffi'r drwydded yn berchen arno ac yn talu amdano. Fel rhan o'r BBC, rhaid i weithgareddau BBC Worldwide:

- gydweddu â phwrpasau cyhoeddus y BBC fel y nodir yn y Siarter Frenhinol
- bod yn effeithlon yn fasnachol
- peidio â pheryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau Masnachu Teg y BBC ac osgoi cael effaith ormodol ar y farchnad

**Ffeithiau allweddol**

- Ffigurau 2009/10: elw o £145miliwn (cyn eitemau penodol) ar refeniw statudol o £1,074miliwn
- buddsoddi mwy na £1biliwn yn niwydiant creadigol y DU dros y pum mlynedd diwethaf
- meysydd busnes:
  - sianelau
  - cynnwys a chynhyrchu
  - cyfryngau digidol
  - gwerthiannau a dosbarthu
  - cylchgronau, plant a thrwyddedu
  - adloniant cartref
  - brandiau byd-eang

# CAM YN AGOSACH AT DELEDU A ALL GYSYLLTU Â'R RHYNGRWYD I BAWB

## ASESU RÔL Y BBC YM MHROSIECT 'CANVAS'

Ym mis Tachwedd 2008, gofynnodd y Bwrdd Gweithredol am ganiatâd yr Ymddiriedolaeth i ffurfio menter ar y cyd â phartneriaid i helpu i gyflwyno teledu a all gysylltu â'r rhyngrwyd. Byddai'r cynnig, sef Prosiect 'Canvas', yn galluogi gwylwyr i wylio gwasanaethau ar alw megis BBC iPlayer a chynnwys arall y rhyngrwyd ar eu setiau teledu, drwy bennu safon gyffredin ar gyfer blychau pen set a dyfeisiau eraill.

Mae'r syniad uchelgeisiol hwn yn cydweddu'n dda â her yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol i ddwyn manteision buddsoddiad cyhoeddus y BBC i'r sector darlledu cyhoeddus cyfan. O ran unrhyw weithgarwch cyhoeddus newydd i'r BBC, bu'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am asesu p'un a fyddai'n cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus, a'r effaith y gallai ei chael ar y farchnad. Mae hyn wedi cynnwys asesiad gwerth cyhoeddus, asesiad effaith ar y farchnad, a nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae hefyd wedi golygu gweithio gyda phartïon â diddordeb ymhob rhan o'r diwydiant er mwyn clywed eu barn ar sawl cam fel bod ein hasesiad mor fanwl gywir a hyddysg â phosibl.

### ASESIAD GWERTH CYHOEDDUS

Daeth asesiad yr Ymddiriedolaeth o werth cyhoeddus i'r casgliad y byddai 'Canvas' o werth cyhoeddus mawr, ac y byddai'n gyson â phwrpasau cyhoeddus y BBC, gan gynnwys helpu i gyflwyno manteision technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd. Yn gryno, mae ei werth yn seiliedig ar gyflwyno teledu ar alw i'r ystafell fyw drwy safon dechnegol gyffredin. Gallai hefyd helpu i wella ffigurau band-eang.

### ASESIAD O'R EFFAITH AR Y FARCHNAD

Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad y gallai 'Canvas' gael effaith gadarnhaol a negyddol ar nifer o farchnadoedd. Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol a nodwyd roedd ehangu'r farchnad ar gyfer cynnwys ar alw ar y teledu, mynediad i fand eang yn y cartref, a blychau pen set a theledu digidol integredig, yn ogystal ag atgyfnerthu sefyllfa gystadleuol y llwyfan DTT. Ymhlith yr effeithiau negyddol roedd effeithiau ar rentu DVD a'r farchnad fanwerthu, mentrau ar gyfer llwyfannau i ddatblygu eu rhyngwyneb eu hunain â defnyddwyr, yn ogystal ag effaith debygol ar refeniw Sky a Virgin.

### CASGLIADAU DROS DRO

Felly, yn ein casgliadau dros dro, cynigiwyd rhai amodau i leihau'r effaith gystadleuol negyddol ar y farchnad ehangach yn sgîl 'Canvas', gan sicrhau bod pwrpasau cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni a chan ystyried ei rwymedigaethau eraill o dan y Siarter a'r Cytundeb Brenhinol.

### Y TU MEWN I BROSIECT 'CANVAS'

- **Nod:** creu llwyfan agored ar gyfer teledu â chysylltiad â'r rhyngrwyd
- **Partneriaid:** BBC, ITV, Channel 4, five, BT, TalkTalk, Arqiva
- **Cyflawni:** blwch pen set a rhyngwyneb syml â defnyddwyr

Wrth i ni gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn rydym wrthi'n paratoi i gyhoeddi ein casgliadau terfynol.

**Tachwedd 2008**
- Y Bwrdd Gweithredol yn ceisio sêl bendith yr Ymddiriedolaeth i gymryd rhan ym Mhrosiect 'Canvas'

**Chwefror 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y BBC, gan gynnwys ymchwil cynulleidfa

**Chwefror – Rhagfyr 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn asesu gwerth cyhoeddus y cynigion ynghyd â'u heffaith ar y farchnad

**Gorffennaf 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am Brosiect 'Canvas'

**Rhagfyr 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn caniatáu i'r BBC gymryd rhan ym Mhrosiect 'Canvas' am y tro
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar y casgliadau dros dro yn dechrau

**Chwefror 2010**
- Ymgynghoriad cyhoeddus yn gorffen

Partneriaid Prosiect 'Canvas'*

BBC

itv

4

FIVE

BT

TalkTalk
Brighter Phone & Broadband

arqiva

* Ar adeg cyhoeddi.




# GALLUOGI'R CYHOEDD I LEISIO BARN AR DDYFODOL Y BBC

## YR YMDDIRIEDOLAETH YN LANSIO YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR STRATEGAETH NEWYDD Y BBC

'Y cyhoedd sy'n talu am y BBC, felly mae'n gywir ei fod yn esblygu'n barhaus i fodloni ei ddisgwyliadau', dywedodd Syr Michael Lyons.

Mae'r BBC yn gwahodd mewnbwn gan y cyhoedd ar ei ddyfodol posibl. Yn y gorffennol, mae rhai tybiaethau wedi goroesi ynghylch rôl y BBC yn niwydiant darlledu'r DU a'n cymdeithas yn gyffredinol. Yn ystod yr arolwg cynhwysfawr diweddar o strategaeth y BBC, heriwyd ffyrdd traddodiadol o feddwl ac ystyriwyd beth ddylai maint, cwmpas a rôl y BBC fod yn yr amgylchedd darlledu sy'n newid yn barhaus a geir heddiw - a gofynnwyd i'r cyhoedd leisio barn.

Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth bum cwestiwn cyffredinol i'r Bwrdd Gweithredol wrth gynnal yr arolwg:

- sut y gall y BBC gynnal ansawdd a natur unigryw orau?
- ble, os oes angen, y gellid pennu ffocws mwy penodol a lleihau ei faint?
- sut olwg fydd ar BBC cwbl ddigidol?
- a all y BBC ddiffinio'r 'man cyhoeddus' y mae'n ei ddarparu yn well?
- sut y gall y BBC gael y gwerth mwyaf o'i faint?

### THEMÂU AR GYFER BBC YN Y DYFODOL

Mae gweledigaeth graidd cynigion y Bwrdd Gweithredol o BBC sy'n canolbwyntio ar gynnwys o ansawdd a gwerthoedd parhaus, gan gadw'n agored fan cyhoeddus i bawb, yn un rydym yn ei chroesawu'n fawr. Rydym hefyd o blaid yr egwyddorion canolog a gyflwynwyd fel rhan o'r broses o gyflawni'r weledigaeth honno, sef:

- rhoi ansawdd yn gyntaf
- gwneud llai o bethau'n well
- sicrhau mynediad
- gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach
- gosod ffiniau newydd

Mae Ymddiriedolaeth y BBC a'r BBC yn gwneud gwaith ymchwil helaeth ymhlith gwylwyr a gwrandawyr, gan gynnwys ein cynulleidfaoedd iau.

Ein prif ffocws – a ffocws gwaith pellach – fu i ba raddau y bydd y strategaeth yn cyflawni'r pum egwyddor hyn, a ph'un a oes dulliau amgen neu well o'u cyflawni na'r rhai a amlinellir yn y cynigion. Mae barn y cyhoedd yn hollbwysig i bennu'r camau a gymerwn i lunio dyfodol y BBC.

**Gorffennaf 2009**
- Yr Ymddiriedolaeth yn herio'r Bwrdd Gweithredol i gwblhau arolwg cynhwysfawr o strategaeth y BBC

**Medi 2009**
- Y Cadeirydd yn cyhoeddi llythyr agored i dalwyr ffi'r drwydded

**Mawrth 2010**
- Y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno cynigion i'r Ymddiriedolaeth
- Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi strategaeth arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

**Mai 2010**
- Yr Ymddiriedolaeth yn comisiynu ymchwil cynulleidfa
- yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben

### BETH MAE CYNULLEIDFAOEDD YN EI DDWEUD

Mae cynulleidfaoedd yn dweud y canlynol wrthym:

- maent yn ymfalchïo yn y BBC ac yn credu y gellir ymddiried ynddo
- maent am iddo fod yn gryf ac yn annibynnol
- maent yn fodlon talu amdano - ond yn disgwyl i ffi'r drwydded gynnig gwerth da am arian
- maent am i'w harian gael ei wario ar raglenni o ansawdd uchel
- maent am weld mwy o raglenni sy'n teimlo'n newydd ac yn wahanol

Bu'r safbwyntiau hyn yn ganolog i'n ffordd o feddwl wrth adolygu cynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer dyfodol y BBC.

# CYNLLUNIAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER 2010/11

## EIN PRIF FLAENORIAETH YW'R AROLWG CYNHWYSFAWR O STRATEGAETH Y BBC FEL YR AMLINELLIR GYFERBYN.

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r gwaith arall rydym yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn. Gellir cael y manylion llawn ar ein gwefan.

## GWARCHOD FFI'R DRWYDDED

### GWERTH AM ARIAN

Byddwn yn comisiynu astudiaethau gwerth am arian o'r broses o reoli:

a) cynhyrchu drama barhaus (operâu sebon)

b) menter cyfryngau digidol y BBC yn ogystal ag arolwg annibynnol o broses y BBC o reoli'r gwaith o ennill hawliau chwaraeon.

### CYFLOGAU'R BWRDD GWEITHREDOL

Byddwn yn olrhain cynnydd yn erbyn y targed o leihau cydnabyddiaeth uwch reolwyr 25% erbyn mis Gorffennaf 2013.

### GWEITHGAREDDAU MASNACHOL

Byddwn yn llunio strategaeth dreigl tair blynedd ar gyfer BBC Worldwide ochr yn ochr â'r arolwg ehangach o strategaeth y BBC.

### MASNACHU TEG

Byddwn yn cynnal ein harolwg cyntaf o bolisi masnachu teg a chodau cysylltiedig y BBC.

### CYFLENWI RHAGLENNI

Byddwn yn cynnal ail arolwg o'r 'ffenestr cystadleuaeth greadigol'. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ein harolwg o gyflenwad rhaglenni radio gan gwmnïau annibynnol ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau.

### PARTNERIAETH S4C

Byddwn yn llunio partneriaeth strategol newydd ag S4C.

## CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED

### AROLWG O NATUR DDIDUEDD

Byddwn yn adolygu natur ddiduedd rhaglenni gwyddonol y BBC.

### AROLWG O'R FFRAMWAITH CWYNION A GWEITHDREFNAU CWYNO

Byddwn yn adolygu fframwaith cwynion a gweithdrefnau cysylltiedig y BBC ac yn ymgynghori arnynt. Byddwn yn cynnal ail ymchwiliad 'cudd' i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion pan gyrhaeddant y BBC.

### BLAENORIAETHAU CYNGHORAU CYNULLEIDFA

Mae ein Cynghorau Cynulleidfa yn ein cynghori ar safbwyntiau a phryderon cynulleidfaoedd. Yn dilyn eu cyngor byddwn yn edrych ar y materion isod:

a) mynediad i bawb i wasanaethau'r BBC – byddwn yn ystyried y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU mewn perthynas â holl wasanaethau'r BBC

b) portreadu – byddwn yn ymchwilio i ganfyddiadau o'r ffordd y caiff pobl eu portreadu yn allbwn y BBC ac yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y BBC yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd.

### CYDRADDOLDEB

Yn dilyn cyflwyno Mesur Cydraddoldeb y Llywodraeth ym mis Ebrill 2010, byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i lunio cynllun cydraddoldeb sengl y BBC ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

## HYRWYDDO PWRPASAU CYHOEDDUS Y BBC YN EFFEITHIOL

### ADOLYGU GWASANAETHAU

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i adolygu holl wasanaethau'r BBC ac ymgynghori arnynt o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Yn 2010/11 byddwn yn adolygu'r canlynol:

**a) Radio**
- BBC Radio 3
- BBC Radio 4
- BBC 7
- Radio'r gwledydd
  - BBC Radio Wales
  - BBC Radio Cymru
  - BBC Radio Scotland
  - BBC Radio nan Gàidheal
  - BBC Radio Ulster/Foyle

**b) Teledu (wedi dechrau y llynedd, i'w gwblhau eleni)**
- BBC One
- BBC Two
- BBC Four
- BBC Red Button

**c) Ar-lein**

Gwnaethom adolygu BBC Ar-lein yn 2008, ac eleni byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y rheolaethau a grëwyd fel rhan o argymhellion yr arolwg gwreiddiol.

# YMDDIRIEDOLAETH Y BBC: YN GWEITHIO AR RAN TALWYR FFI'R DRWYDDED

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff llywodraethu'r BBC, ar wahân i'r Bwrdd Gweithredol sy'n rheoli gweithrediadau'r BBC o ddydd i ddydd. Ein rôl yw cynrychioli talwyr ffi'r drwydded a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn darparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd yn eu dymuno, ac mae hefyd yn sicrhau bod y BBC yn atebol ac yn agored. Rydym yn diogelu annibyniaeth y BBC rhag dylanwad masnachol neu wleidyddol.



Aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan yn un o ymgynghoriadau cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth.




# LLYWODRAETHU



SYR MICHAEL LYONS
CADEIRYDD



CHITRA BHARUCHA
IS-GADEIRYDD



DIANE COYLE



ANTHONY FRY



ALISON HASTINGS
LLOEGR



Y FONESIG PATRICIA HODGSON



ROTHA JOHNSTON
GOGLEDD IWERDDON



JANET LEWIS-JONES
CYMRU



DAVID LIDDIMENT



MEHMUDA MIAN



JEREMY PEAT
YR ALBAN



RICHARD TAIT



RICHARD AYRE

Am ragor o wybodaeth am yr Ymddiriedolwyr, eu gyrfaoedd a'u profiad blaenorol, ewch i bbc.co.uk/bbctrust.

# YMDDIRIEDOLWYR Y BBC

## MAE 12 YMDDIRIEDOLWR Y BBC YN RHAN AMSER AC YN DOD O AMRYWIOL GEFNDIROEDD, GAN GYNNIG AMRYWIAETH MAWR O BROFIAD I'R BBC. YMHLITH YR YMDDIRIEDOLWYR MAE CADEIRYDD, IS-GADEIRYDD A'R YMDDIRIEDOLWYR CENEDLAETHOL DROS GYMRU, LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON.

### SYR MICHAEL LYONS (CADEIRYDD)
Rolau eraill: Cadeirydd, English Cities Fund; Darpar Gadeirydd, Participle Ltd; un o gyfarwyddwyr anweithredol, Mouchel plc, Wragge & Co, a SQW Ltd; Cadeirydd, Gwasg Tindal Street; llywodraethwr, Royal Shakespeare Company.

### CHITRA BHARUCHA MBE (IS-GADEIRYDD)
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau a Phwyllgor y Cynghorau Cynulleidfaoedd; Ymddiriedolwr arweiniol dros newyddion rhyngwladol; cyd-Ymddiriedolwr arweiniol dros gwynion. Rolau eraill: Ymddiriedolwr, Marie Curie Cancer Care.

### DIANE COYLE OBE
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cymeradwyaethau Strategol; arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o wasanaethau teledu a'r asesiad o brosiect 'Canvas'. Rolau eraill: Economegydd; aelod o'r Pwyllgor Cynghorol ar Fewnfudo; aelod o'r Arolwg Annibynnol o Gyllid Addysg Uwch; athro ymweld, Prifysgol Manceinion, Sefydliad Llywodraethu Gwleidyddol ac Economaidd.

### ANTHONY FRY
Mae'n craffu ar weithgarwch masnachol y BBC ar ran yr Ymddiriedolaeth. Rolau eraill: Uwch gynghorydd, Evercore Partners; cadeirydd, Dairy Crest; un o gyfarwyddwyr anweithredol Control Risks; un o gyfarwyddwyr anweithredol LL Online; aelod o fwrdd Gŵyl Deledu Ryngwladol Caeredin, English National Opera; Cadeirydd Bwrdd Datblygu'r Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd.

### ALISON HASTINGS
Yr Ymddiriedolwr dros Loegr (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Lloegr). Rolau eraill: Cynghorydd ar y cyfryngau; is-lywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain; cynghorydd yn ôl galw i Camelot; cynghorydd yn ôl galw a hyfforddwr, Comisiwn Cwynion y Wasg.

### Y FONESIG PATRICIA HODGSON DBE
Ymddiriedolwr arweiniol dros ddysgu; arweiniodd ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth â darparwyr dysgu masnachol. Rolau eraill: Pennaeth Coleg Newnham, Caergrawnt; un o gyfarwyddwyr anweithredol y Comisiwn Cystadleuaeth; aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

### ROTHA JOHNSTON CBE
Yr Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon); mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth; Ymddiriedolwr arweiniol dros faterion eiddo. Rolau eraill: Partner, Johnston Partnership; un o gyfarwyddwyr anweithredol Allied Irish Bank (UK) plc; Dirprwy-Ganghellor, Prifysgol y Frenhines, Belfast; aelod, JIGSA.

### JANET LEWIS-JONES
Yr Ymddiriedolwr dros Gymru (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru); Ymddiriedolwr arweiniol dros fasnachu teg. Rolau eraill: Cadeirydd, Panel Dethol Aelodau Glas Cymru Cyf (Dŵr Cymru); ymddiriedolwr, Cyfiawnder i Ffoaduriaid a Mudwyr, Elusen Maytree a Cherddorfa Siambr Canolbarth Cymru.

### DAVID LIDDIMENT
Mae'n Cadeirio Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad; arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o BBC Radio 2 a BBC 6 Music. Rolau eraill: Un o gyfarwyddwyr anweithredol All3Media; un o aelodau cyswllt Old Vic Theatre Company.

### MEHMUDA MIAN
Ymddiriedolwr arweiniol dros faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth; cyd-Ymddiriedolwr arweiniol dros gwynion. Rolau eraill: Un o gyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod Diogelu Annibyniaeth; cyfarwyddwr cyswllt, Sefydliad Lokahi.

### JEREMY PEAT
Yr Ymddiriedolwr dros yr Alban (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa'r Alban); Ymddiriedolwr arweiniol dros y rhaglen gwerth am arian (roedd rhaglen 2009 yn cynnwys ystadau a digwyddiadau mawr). Rolau eraill: Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolaeth Pensiwn y BBC, un o gyfarwyddwyr Sefydliad David Hume; aelod o'r Comisiwn Cystadleuaeth.

### RICHARD TAIT CBE
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Safonau Golygyddol; mae'n arwain gwaith yr Ymddiriedolaeth ar safonau golygyddol a chydymffurfiaeth. Mae'n gadael ar 31 Gorffennaf 2010. Rolau eraill: Athro Newyddiaduraeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd; Is-Gadeirydd, Sefydliad Diogelwch Newyddion Rhyngwladol.

### RICHARD AYRE
Mae'n ymuno â'r Ymddiriedolaeth 1 Awst 2010.

# CYNGHORAU CYNULLEIDFA

## MAE CYNGHORAU CYNULLEIDFA CYMRU, LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON, A GADEIRIR GAN YR YMDDIRIEDOLWR DROS Y WLAD HONNO, YN BODOLI I SICRHAU BOD TALWYR FFI'R DRWYDDED YM MHOB RHAN O'R DU YN CAEL MYNEGI BARN AR WAITH YR YMDDIRIEDOLAETH AC FELLY DDYFODOL Y BBC.

Caiff cynghorau eu recriwtio i adlewyrchu amrywiaeth y DU, a gwirfoddolwyr yw'r aelodau. Maent yn gwrando ar safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded, ac yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar faterion o ddiddordeb cyfredol. Ymgynghorir â hwy ynglŷn â chynigion ar gyfer gwasanaethau newydd a pha mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus. Bob blwyddyn maent yn awgrymu ffyrdd o wella gwasanaethau'r BBC, yn seiliedig ar yr hyn a ddywedwyd wrthynt gan gynulleidfaoedd ('blaenoriaethau cynulleidfaoedd').

### GWRANDO AR GYNULLEIDFAOEDD

Cynhaliodd y Cynghorau fwy na 60 o gyfarfodydd â thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU, rhai o grwpiau cynulleidfa penodol megis lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a'r gymuned fusnes. Canolbwyntiodd rhai cyfarfodydd ar faterion penodol megis adroddiad y Llywodraeth ar Brydain Ddigidol, ond mewn cyfarfodydd eraill cododd cynulleidfaoedd faterion o bryder iddynt hwy.

### PERFFORMIAD YN ERBYN BLAENORIAETHAU CYNULLEIDFAOEDD AR GYFER 2009/10

Croesawodd y Cynghorau y cynnydd a wnaed yn 2009/10. Cynyddodd y BBC nifer y rhaglenni teledu a wneir y tu allan i Lundain, a chomisiynodd ymchwil i ganfod a oedd gwelliannau yn cael eu gwneud yn y sylw a roddir yn y newyddion i'r gwledydd datganoledig. Datblygwyd canllawiau newydd ar safonau golygyddol y BBC. Yn sgîl penderfyniad yr Ymddiriedolaeth i wrthod cynlluniau ar gyfer mwy o ddarpariaeth leol ar y we, gwnaeth y BBC welliannau i'r ddarpariaeth yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a dechreuodd ar ymchwil ar gynulleidfaoedd ynglŷn â darparu newyddion i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ymgymryd â gwaith penodol i weld sut y gallai'r BBC bortreadu amrywiaeth y DU yn well.

### CYNGHORI'R YMDDIRIEDOLAETH

Rhoddodd y Cynghorau gyngor i ni ar ddatblygiadau mawr sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd y BBC o'r arolygon o BBC Radio 2, Teledu'r BBC, a digwyddiadau rhestredig am ddim i'w darlledu, i'r cynnig ar gyfer teledu digidol ar y rhyngrwyd ('Canvas') ac adroddiad Prydain Ddigidol y Llywodraeth. Mae cynulleidfaoedd yn cefnogi 'Canvas', ond maent am weld bod y dechnoleg sy'n ei gyflawni yn hawdd i'w defnyddio. O ran



Prydain Ddigidol, pwysleisiodd y Cynghorau fod talwyr ffi'r drwydded yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o berchenogaeth a gânt drwy dalu ffi yn gyfnewid am wasanaethau'r BBC.

#### Cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus

Teimlai cynulleidfaoedd fod y BBC wedi gwneud cynnydd eleni ond roedd meysydd i'w gwella o hyd. Croesawodd y Cynghorau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon y penderfyniad i ryddhau ac ailddefnyddio adnoddau dysgu Cymraeg, Gaeleg yr Alban a Gwyddeleg o'r hen BBC jam, a dywedodd y Cynghorau y dylai'r gwledydd hynny gael eu cynrychioli'n well ar wasanaethau'r rhwydwaith a gwasanaethau lleol. Dywedodd Cyngor Cynulleidfa Lloegr fod lleiafrifoedd ethnig am weld modelau rôl mwy cadarnhaol i aelodau iau o'u cymunedau. Nododd pob Cyngor fod cynulleidfaoedd am weld mwy o arloesi yng ngwasanaethau'r BBC.

### BLAENORIAETHAU AR GYFER 2010/11

Mae blaenoriaethau cyfredol talwyr ffi'r drwydded yn cynnwys gweld mwy o syniadau ffres gan y BBC, a gweld y BBC yn gwneud mwy i gynrychioli cymdeithas gyfoes y DU yn gywir. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn pryderu na all pawb gael gafael ar wasanaethau'r BBC, yn enwedig DAB a band eang. Bu'r materion hyn yn rhan o'r arolwg strategol a lansiwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn gynharach eleni. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried mynediad yn ein harolygon o radio yn y gwledydd datganoledig ac rydym wedi dechrau prosiect i ganfod sut y gallai'r BBC bortreadu amrywiaeth llawn gwledydd a chymunedau'r DU yn well.

Ceir rhagor o fanylion am gyngor y Cynghorau yn arolygon blynyddol y Cynghorau eu hunain.

# YMGYSYLLTU Â PHOB CYNULLEIDFA

## DIM OND DRWY WRANDO AR YR HYN Y MAE CYNULLEIDFAOEDD YN EI FEDDWL A CHYNNWYS EU SAFBWYNTIAU YN EIN PENDERFYNIADAU Y GALLWN SICRHAU BOD Y BBC YN GWASANAETHU TALWYR FFI'R DRWYDDED AC YN DARPARU'R HYN A DDYMUNANT MEWN GWIRIONEDD.

Nod ffi'r drwydded, sy'n unigryw i'r BBC, yw sicrhau allbwn o safon uchel, am ddim, sydd ar gael i bawb. Ond mae'n golygu bod yn rhaid i bawb sy'n gwylio rhaglenni teledu gael trwydded, waeth beth fo'u barn am y BBC. Felly mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod pawb yn cael gwasanaeth cystal â phosibl. Er mwyn gwneud hynny rydym yn cynnal rhaglen waith sy'n ein helpu i ddeall beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl.

### DEALL BETH MAE CYNULLEIDFAOEDD YN EI FEDDWL

Yn ogystal â'r cyngor a roddir gan ein Cynghorau Cynulleidfaoedd, gofynnwn i'r cyhoedd am eu barn ar benderfyniadau y mae angen i ni eu gwneud drwy ymgynghoriadau. Er enghraifft, rydym yn ymgynghori pan fyddwn yn adolygu un o sianelau'r BBC neu pan fydd y BBC am lansio gwasanaeth newydd. Eleni ailddatblygwyd ein gwefan a darparwyd lle penodol i ymgynghoriadau. Gwyddom nad yw pawb yn cael mynediad rhwydd i'r rhyngrwyd, fodd bynnag, felly rydym yn defnyddio pytiau rhagflas ar yr awyr a thaflenni i roi cyhoeddusrwydd i ymgynghoriadau ac annog pobl i gymryd rhan. Yn ystod 2009/10, cymerodd mwy na 35,000 o bobl ran yn ymgynghoriadau'r Ymddiriedolaeth.

Rydym hefyd yn cynnal ymchwil drylwyr i sicrhau ein bod yn clywed gan amrywiaeth ehangach o dalwyr ffi'r drwydded na'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Rydym yn ystyried materion yn fanylach, gan ddefnyddio ymchwil ansoddol, megis gweithdai, grwpiau neu gyfweliadau, tra bydd arolygon yn fodd i ni ddeall pa mor gryf yw safbwyntiau penodol ymhlith y boblogaeth gyfan. Er enghraifft, mae ein Harolwg blynyddol o Gylch Gwaith Pwrpas yn offeryn allweddol a ddefnyddiwn i fesur safbwyntiau pobl ar y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus.

### CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Credwn y dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU er mwyn cynrychioli talwyr ffi'r drwydded yn y ffordd fwyaf effeithiol. Ym mis Rhagfyr 2009, cawsom adroddiad blynyddol cyntaf y Bwrdd Gweithredol ar ei gynnydd o ran gweithredu strategaeth amrywiaeth y BBC ar draws gweithgarwch y BBC. Bydd yr adroddiadau blynyddol hyn yn ei gwneud yn haws i ni fonitro cynnydd.



Un o'r materion sydd o dan sylw o hyd yw cyfran y staff ar lefel uwch o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig. Noda ein hadroddiad, *Observations on the Promotion of Equal Opportunities in Employment*, fod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi llawer o fentrau ar waith i weithio tuag at gynyddu hyn, ond mae'r ganran o 5.7% yn parhau i fod yn brin o'n targed o 7% sydd i'w gyflawni erbyn 2012. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ar y camau gweithredu a nodwyd yn ein hadroddiad, ac ar y cynnydd tuag at gyflawni'r targed hwn.

Mae ar y BBC ddyletswyddau cyfreithiol hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd, rhyw a hil mewn perthynas â 'swyddogaethau cyhoeddus' penodol, sy'n cynnwys TV Licensing, trefniadau ar gyfer newid i ddigidol a rhai o'n swyddogaethau rheoleiddio ein hunain. Rydym yn cyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb sy'n esbonio sut y gwnawn hyn, ac eleni fe'u harolygwyd gennym, gan gynnwys comisiynu ymchwil a oedd yn cynnwys sefydliadau anabledd, hil a rhywedd. Mae gwaith wedi dechrau drwy'r BBC ar y cynllun cydraddoldeb a gaiff ei gyhoeddi yn 2011; bydd hwn yn cyfuno'r cynlluniau presennol ac yn ychwanegu camau gweithredu ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol, oedran a chrefydd.

Fel yr Ymddiriedolaeth, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithrediadau a'n hymddygiad. Eleni gwnaethom gynnydd da, gan ofyn i amrywiaeth o bobl gyfrannu at ein gwaith wrth i ni adolygu gwasanaethau'r BBC. Cwblhawyd asesiadau o effaith cydraddoldeb ar gyfer pob arolwg mawr gennym er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau yn gynhwysol ac nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau.

# MASNACHU'N DEG

## EIN DYLETSWYDD YW SICRHAU BOD Y BBC YN CYFLAWNI'R PWRPASAU CYHOEDDUS A NODIR YN Y SIARTER FRENHINOL; EI FOD YN CYNNAL EI WEITHGAREDDAU MASNACHOL YN DEG; AC NAD YW'N DEFNYDDIO EI RYM ECONOMAIDD MEWN FFYRDD SY'N RHWYSTRO MENTERGARWCH GAN ERAILL.

Mae'r BBC yn chwarae rhan allweddol drwy helpu i symbylu, datblygu a chynnal buddsoddiad mewn cynnwys darlledu o safon uchel. Heb effaith gadarnhaol y BBC, gallai rhannau eraill o'r sector creadigol, yn amrywio o ddiwydiant ffilm y DU i gerddorfeydd a gwasanaethau ieithoedd i'r gwledydd fynd yn llawer llai neu gael eu colli. Mae'r BBC yn creu buddsoddiad sylweddol a sefydlog, sy'n arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economaidd, gan roi màs critigol i lawer o gwmnïau creadigol a darlledu a'r sector yn ei gyfanrwydd.

Gwyddom fod pobl yn gwerthfawrogi dewis eang o gynnwys ar y radio, teledu ac ar-lein. Tra'n cadw'r dewis hwnnw er budd y cyhoedd, rydym hefyd yn sicrhau bod y BBC yn chwarae rhan deg ym marchnad ehangach cyfryngau'r DU. Gwnawn hyn drwy graffu ar gynigion newydd gan y Bwrdd Gweithredol o ran eu heffaith economaidd a masnachol, gan sicrhau bod pob un o weithgareddau'r BBC yn cydymffurfio â'n cyfundrefn masnachu teg.

### CRAFFU AR GYNIGION NEWYDD

Pan fydd y BBC am lansio gwasanaeth newydd, un rhan bwysig o'n gwaith yw ystyried ei effeithiau posibl ar y farchnad ehangach. Yn achos unrhyw newid sylweddol i un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, rydym yn cynnal prawf gwerth i'r cyhoedd ar y cyd ag Ofcom. Nod y profion yw sicrhau yr ystyrir gwerth i'r cyhoedd ac effeithiau ar y farchnad, a'u bod yn ystyried safbwyntiau partïon â diddordeb, gan gynnwys eraill yn y farchnad. Pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, rydym yn ei gyhoeddi a'r rhesymau drosto. Ni chynhaliwyd unrhyw brofion yn 2009/10. Gall yr Ymddiriedolaeth hefyd alw achosion eraill i mewn, os credwn, er enghraifft, fod tystiolaeth bod y rhain o bosibl yn gyfystyr â newid sylweddol mewn gwasanaeth sy'n bodoli eisoes. Craffodd yr Ymddiriedolaeth ar sawl un o weithgareddau'r BBC yn y ffordd hon yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cymhwyso'r un egwyddorion at weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus nas dosbarthwyd yn wasanaethau, er enghraifft cyfranogiad y BBC yn 'Canvas' (gweler tudalen 1-27).

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn goruchwylio gwasanaethau masnachol y BBC. Mae'r rhain ar wahân i wasanaethau cyhoeddus y BBC ac ni chânt eu hariannu drwy ffi'r drwydded. Mae'r gwasanaethau hyn yn destun gofynion gwahanol, ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â chyfundrefn masnachu teg y BBC ac mae'n rhaid iddynt beidio ag ystumio'r farchnad.

### GORUCHWYLIO TREFNIADAU MASNACHU TEG

Mae'r BBC yn cydnabod ei fod yn chwarae rhan unigryw ym marchnad y cyfryngau. Mae'n dilyn rheolau'r DU a'r UE ynglŷn â chystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol, a'i ddatganiad polisi ei hun am fasnachu teg yn ôl gofynion y Siarter Frenhinol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gydymffurfio â'r polisi hwn. Nod y gyfundrefn masnachu teg hon yw sicrhau y cynhelir gweithgareddau masnachol a gweithgareddau eraill y BBC yn deg a lleihau unrhyw effaith negyddol ar y farchnad. Rydym yn adolygu'r polisi hwn a'r ffordd y'i gweithredir o leiaf bob tair blynedd. Daeth polisi masnachu teg cyfredol y BBC a chodau effaith gystadleuol cysylltiedig yr Ymddiriedolaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2007. Yn unol â hynny byddwn yn eu hadolygu yn ystod 2010, gan gynnwys ymgynghoriad, i ystyried sut y gellid eu gwella yng nghyd-destun marchnad y cyfryngau sy'n datblygu.

#### Cydymffurfio

Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y BBC â masnachu teg o ddydd i ddydd ac am ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â masnachu teg drwy Bwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol. Am ragor o wybodaeth ewch i www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading.

Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfio â masnachu teg ac am ymdrin ag apeliadau masnachu teg. Mae'r tîm yn cael sicrwydd mewn sawl ffordd bod y rheolaethau a'r gweithdrefnau sydd â'r nod o sicrhau'r polisïau masnachu teg a gymhwyswyd wedi cael eu dilyn drwy'r BBC cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol i'r pwyllgor, adroddiadau gan archwilwyr masnachu teg annibynnol (gweler gyferbyn), a'i waith ei hun o ran gwrando apeliadau ar faterion masnachu teg.

#### Apeliadau 2009/10

Yn 2009 ystyriodd y pwyllgor ddwy apêl ynglŷn â masnachu teg ac, yn anarferol, ystyriodd un gŵyn yn uniongyrchol yn hytrach na'i chyfeirio at y pwyllgor. Cadarnhaodd elfennau o bob un o'r tair apêl ar bwyntiau proses. Roedd yn siom

iddo nodi bod y thema gyffredin yn y canfyddiadau hyn yn ymwneud â diffyg asesiad o effaith gystadleuol wedi'i ddogfennu'n briodol gan y Bwrdd Gweithredol. Gofynnodd y pwyllgor i'r Bwrdd Gweithredol wella ei brosesau yn hyn o beth a gofynnodd i'r archwilwyr masnachu teg annibynnol roi adroddiad ynghylch a oedd y gwelliannau hyn wedi cael eu gwneud. Mae'r pwyllgor wedi cael sicrwydd digonol gan yr archwilwyr i'r perwyl hwn. Gellir cael manylion apeliadau a chanfyddiadau ar ein gwefan.

### Archwiliadau annibynnol

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chynghori gan archwilwyr a chynghorwyr annibynnol ym maes masnachu teg. Mae'r archwilwyr annibynnol yn cynnal archwiliad masnachu teg blynyddol i benderfynu a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'r polisi masnachu teg, codau effaith gystadleuol a chanllawiau ar fasnachu teg. Mae'r archwiliad yn cynnwys rhaglen eang o arolygon, profion a gwerthusiadau ar draws holl is-adrannau'r BBC. Nodir barn yr archwilwyr isod.

### Adroddiad yr archwilwyr masnachu teg annibynnol i Ymddiriedolaeth y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd Gweithredol y BBC (y Bwrdd Gweithredol) wedi cydymffurfio â gofynion ei Bolisi ar Fasnachu Teg, Codau Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau ar Fasnachu Teg ('y trefniadau Masnachu Teg') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith i'w wneud, gyda Phwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC a Phwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymgysylltiadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ar derfyn ein hatebolrwydd mewn perthynas â'r gwaith hwn a chytundeb mai i Ymddiriedolaeth y BBC (yr Ymddiriedolaeth) fel corff, yn unig y mae ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

#### Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC ac archwilwyr masnachu teg

Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran yn yr Adroddiad Blynyddol y BBC 'Goruchwylio trefniadau masnachu teg' sy'n cynnwys datganiad am fasnachu teg.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi i'r Bwrdd Gweithredol y dasg o sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau masnachu teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg a chynllunio a gweithredu ymatebion i'r fath risgiau.

Fel archwilwyr masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, o ran y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Dim ond i'r graddau yr oedd angen gwneud hynny er mwyn llunio barn ar gymhwyso'r system o reolaethau mewnol yr adolygwyd penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC ar faterion masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad yr Ymddiriedolaeth am fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiaeth y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn i'r Ymddiriedolaeth, fel corff, yn unig, yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gydag Uned yr Ymddiriedolaeth o fewn y BBC ar ran y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth. Drwy roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr Adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ran ac eithrio'r Ymddiriedolaeth neu'r Bwrdd Gweithredol, ac ni fydd gan neb arall hawl i ddibynnu ar ein barn, oni chytunwyd ar hynny'n benodol drwy ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym.

#### Ein dull o weithredu

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymgysylltiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Amcan sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau ag sy'n sicrhau gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi digon o dystiolaeth briodol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymholi ac asesu i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol gennym hefyd er mwyn i ni gael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi'i chymhwyso.

#### Cyfyngiadau cynhenid

Fel gydag unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac afreoleidd-dra wedi digwydd heb iddynt gael eu canfod. Nod ein gwaith archwilio oedd rhoi sicrwydd rhesymol i'r Ymddiriedolaeth o ran digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'i Threfniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. At hynny, gan fod materion masnachu teg yn gofyn am farnau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu mewn man arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cyflwynir her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol ac y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal pennaf.

#### Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.

**Deloitte LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Llundain**
16 Mehefin 2010

# YMDDIRIEDOLAETH Y BBC: BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Mae'r hyn a wnawn a sut yr awn ati yr un mor bwysig. Gwnawn yn siŵr fod ein prosesau mor agored a thryloyw â phosibl. Yn ogystal â'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi bob blwyddyn yn yr Adroddiad hwn, cyflwynwn adroddiadau helaeth ar ein gwaith drwy ein gwefan, lle y cyhoeddwn ein hadroddiadau a'n canfyddiadau yn llawn. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sef staff proffesiynol sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol i ni ar ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, yn ein cynorthwyo i wneud ein gwaith.



Mae Ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr y BBC yn cwrdd yn rheolaidd ag aelodau o'r pedwar Cyngor Cynulleidfa i drafod materion sydd o bwys i gynulleidfaoedd a thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU. Yn y llun gwelir cyfarfod o'r fath â Chyngor Cynulleidfa yr Alban.



# O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH

# LLYWODRAETHU MEWNOL

## FEL YMDDIRIEDOLWYR Y BBC RYDYM YN YMRWYMEDIG I GYNNAL Y SAFONAU UCHAF O RAN LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

### SUT Y GWEITHREDWN

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth yn Siarter Frenhinol y BBC a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. I ategu'r dogfennau hyn rydym wedi llunio cyfres o brotocolau, sy'n rhoi mwy o fanylion am y ffordd yr awn ati i gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn a, lle y bo angen, ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r holl ddogfennau hyn ar ein gwefan.

Ymdrinnir â materion busnes beunyddiol mewn cyfarfodydd misol a fynychir gan bob Ymddiriedolwr. Yn y cyfarfodydd hyn gwnawn benderfyniadau sy'n ymwneud â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac ystyriwn gynigion gan y Bwrdd Gweithredol. Cyhoeddir cofnodion ein cyfarfodydd misol ar ein gwefan.

#### Ein cynllun gwaith

Bob blwyddyn cyhoeddwn ein cynllun gwaith blynyddol. Cawn fewnbwn gan y Cynghorau Cynulleidfa ar y materion sydd o bwys i gynulleidfaoedd er mwyn ein helpu i bennu'r blaenoriaethau a ddylai ymddangos yn ein cynllun. Ceir crynodeb o gynllun gwaith 2010/11 ar dudalen 1-29, ac mae'r cynllun llawn ar ein gwefan.

#### Bod yn agored ac yn dryloyw

Cymerwn y ddyletswydd sydd arnom i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, a nodir yn y Siarter Frenhinol, o ddifrif – gwelwn hyn fel rhan o'n hymrwymiad i dalwyr ffi'r drwydded. Pan fydd angen gwneud gwaith pwysig, cynhaliwn ymgynghoriadau cyhoeddus a gofynnwn yn benodol am safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded, y diwydiant a'r rhai y mae cynnig yn effeithio arnynt. Defnyddiwn ein gwefan yn ogystal â chyfryngau eraill i annog pobl i ymateb, gan sicrhau bod digon o gyfle i bobl leisio barn.

Ar ôl i ni wneud penderfyniad cyhoeddwn ein casgliadau yn glir ynghyd â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i'w cyrraedd. Eglurwn ein penderfyniadau i dalwyr ffi'r drwydded, y diwydiant a'r rhai o fewn y BBC y gallant effeithio arnynt. Rydym hefyd yn cyhoeddi costau ein gwaith pwysig.

#### Uned yr Ymddiriedolaeth

Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol i ni, yn ein cynorthwyo i wneud ein gwaith, gan alw ar arbenigwyr allanol lle y bo angen. Mae'r Uned yn cynnwys staff y BBC sy'n annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol ac sy'n uniongyrchol atebol i ni. Mae'n cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, datblygu polisi, ymchwil cynulleidfa, dadansoddi ariannol a pherfformiad, economeg a'r gyfraith. Mae'r Uned yn cynghori Ymddiriedolwyr ar eu dyletswyddau, yn rheoli swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth ac yn cyflwyno asesiadau annibynnol o gynigion y Bwrdd Gweithredol iddi. Lleolir y rhan fwyaf o staff yr Uned yn Llundain, tra bod eraill yn gweithio mewn swyddfeydd yn Belfast, Birmingham, Caerdydd a Glasgow.

#### Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth

Gwnawn gryn dipyn o'n gwaith drwy saith pwyllgor, a all wneud penderfyniadau penodol ar ran yr Ymddiriedolaeth gyfan. Mae cylch gorchwyl pob un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan. Rhoddir gwybodaeth am fynychu cyfarfodydd pwyllgorau ar dudalen 1-46.









**Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad**
David Liddiment (Cadeirydd)
Diane Coyle
Alison Hastings
Y Fonesig Patricia Hodgson
Mehmuda Mian

Y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad (APC) sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad holl wasanaethau cyhoeddus y BBC ar ran yr Ymddiriedolaeth ac mae'n monitro'r ffordd y mae'r BBC (gwasanaethau yn y DU a BBC World Service) yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus fel yr amlinellir yn y Siarter Frenhinol.

Gan ddefnyddio ymchwil cynulleidfa, mae'r APC yn asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC yn erbyn y meini prawf a nodir yn y trwyddedau gwasanaeth, gan ddefnyddio data a ddarperir gan y Bwrdd Gweithredol a dadansoddiad annibynnol a gynhelir gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Un o gyfrifoldebau allweddol yr APC yw goruchwylio rhaglen adolygu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu pob un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Soniwyd am arolygon gwasanaeth eleni yn gynharach yn yr Adroddiad hwn.

**Pwyllgor Safonau Golygyddol**
Richard Tait (Cadeirydd)
Chitra Bharucha
Anthony Fry
Alison Hastings
David Liddiment
Mehmuda Mian

Y Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC), gan weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth, sy'n gyfrifol am bennu safonau golygyddol y BBC ac asesu holl wasanaethau'r BBC o ran cydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae safonau golygyddol yn rhan gynhenid o Ganllawiau Golygyddol y BBC y mae'r ESC yn eu comisiynu gan y Bwrdd Gweithredol. Yr ESC yw'r corff apêl terfynol o fewn y BBC ar gyfer penderfynu a ddilynwyd y Canllawiau hyn.

Mae'r ESC hefyd yn rheoli rhaglen adolygu natur ddiduedd yr Ymddiriedolaeth.

**Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth**
Rotha Johnston (Cadeirydd)
Anthony Fry
Y Fonesig Patricia Hodgson
Janet Lewis-Jones
Jeremy Peat

Y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (FCC) sy'n gyfrifol am gyllid, gwerth am arian a chydymffurfiaeth, ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r FCC yn craffu ar gyllideb flynyddol y BBC a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol cyn i'r Ymddiriedolaeth gyfan ei gweld; mae'n rhaid i'r pwyllgor hwn gymeradwyo unrhyw fuddsoddiad ariannol mawr. Mae'r FCC hefyd yn rheoli rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod argymhellion yr arolygon yn cael eu gweithredu gan y Bwrdd Gweithredol.

Yr FCC sy'n goruchwylio swyddogaeth gydymffurfio'r Bwrdd Gweithredol (ac eithrio cydymffurfiaeth olygyddol a oruchwylir gan yr ESC) ac mae'n monitro rheolaethau mewnol a phrosesau rheoli risg. Mae hefyd yn ystyried apeliadau ynghylch masnachu teg, trwyddedau teledu a'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

**Pwyllgor Cymeradwyo Strategol**
Diane Coyle (Cadeirydd)
Y Fonesig Patricia Hodgson
Rotha Johnston
Jeremy Peat
Richard Tait (tan fis Chwefror 2010)
David Liddiment (yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd yr APC, a dim ond mewn perthynas â chymeradwyo gwasanaethau)

Mae'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol (SAC) yn ystyried cynigion y Bwrdd Gweithredol am wasanaethau newydd neu newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, heblaw am y rhai a gynigir fel rhan o arolwg gwasanaeth (a ystyrir gan yr APC). Mae'r SAC yn penderfynu a oes angen cynnal prawf gwerth cyhoeddus (PVT) ac yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn unol â hynny.

Mae'r SAC yn rheoli unrhyw PVT neu ystyriaeth arall o gynnig gan y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar ganlyniadau posibl.



Mae'r SAC hefyd yn goruchwylio strategaeth fasnachol y BBC ac unrhyw gynlluniau busnes masnachol manwl a gynigir i'r Ymddiriedolaeth i'w cymeradwyo.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau**
Chitra Bharucha (Cadeirydd)
Anthony Fry
Syr Michael Lyons
Janet Lewis-Jones

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (RAC) sy'n gyfrifol am reoli cyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r RAC yn goruchwylio strategaeth cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar gyflog a buddiannau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am bennu cyflog a buddiannau'r cyfarwyddwyr gweithredol, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr anweithredol yn unig.

**Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa**
Chitra Bharucha (Cadeirydd)
Alison Hastings (Ymddiredolwr dros Loegr)
Rotha Johnston (Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon)
Janet Lewis-Jones (Ymddiriedolwr dros Gymru)
Jeremy Peat (Ymddiriedolwr dros yr Alban)

Mae'r Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (ACC) yn dwyn ynghyd y pedwar Ymddiriedolwr cenedlaethol i oruchwylio a chydgysylltu cyfraniadau Cynghorau Cynulleidfa'r BBC fel cyrff ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth. Ei rôl yw sicrhau bod y materion a nodir gan y Cynghorau Cynulleidfa yn cael sylw priodol gan yr Ymddiriedolaeth a bod y Cynghorau'n gweithio o fewn eu cylchoedd gwaith. Mae'r ACC hefyd yn cymeradwyo aelodau'r Cynghorau Cynulleidfa.

**Panel Apeliadau Cyffredinol**
Ni cheir aelodau penodol. Mae'r Panel yn cynnwys dau Ymddiriedolwr ac fel arfer caiff ei gadeirio gan yr Is-Gadeirydd (Chitra Bharucha).

Mae'r Panel Apeliadau Cyffredinol hefyd yn un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth, er mai dim ond pan fydd angen gwrando cwynion ac apeliadau ar ran yr Ymddiriedolaeth, nad ydynt yn rhan o un o weithdrefnau penodol y BBC, y mae'n cwrdd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwyno'r BBC ar ein gwefan.

## ASESU EIN PERFFORMIAD EIN HUNAIN

Bob blwyddyn adolygwn ein perfformiad ein hunain, gan gynnwys perfformiad pob pwyllgor, a chrynhown ein canfyddiadau yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae hwn yn ofyniad a osodwn i'n hunain yn ein Rheolau Sefydlog ein hunain, a gyhoeddir ar ein gwefan, ac fe'i hargymhellir hefyd gan y Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol.

Eleni cynhaliwyd yr ymarfer hwn yn fewnol, gyda chymorth Uned yr Ymddiriedolaeth. Drwy'r arolwg gwnaethom fyfyrio ar weithrediad yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau a sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni materion busnes a'i chylch gwaith. Trafodwyd canlyniadau'r ymarfer yng nghyfarfod llawn yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â phob pwyllgor. Hefyd cynhaliodd y Cadeirydd gyfweliad â phob Ymddiriedolwr yn unigol a thrafodwyd effeithiolrwydd pob un ohonynt wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Credwn ein bod yn cyflawni ein rolau goruchwylio a rheoleiddio'n effeithiol. Mae ein dyletswydd i wneud penderfyniadau er budd talwyr ffi'r drwydded yn rhywbeth a gymerwn o ddifrif, a chredwn fod y penderfyniadau a wnaed gennym eleni wedi cyflawni canlyniadau yn unol â'r rhain. Yn arbennig, rydym wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â rhai materion a oedd yn peri cryn bryder iddynt yn yr arolwg cynhwysfawr o'r strategaeth a thrwy fentrau penodol megis adolygu cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol. Yn y cyfamser, mae ein harolygon o wasanaethau penodol y BBC yn dechrau cyflawni newidiadau gwirioneddol ac yn gwneud allbwn y BBC yn fwy unigryw.

Rydym hefyd wedi nodi nifer o feysydd y mae angen canolbwyntio arnynt ymhellach yn y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys parhau i sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian, a bod canlyniadau ein holl waith yn cael eu cyfleu'n effeithiol o fewn y BBC a'r tu allan iddo.



## COSTAU RHEDEG YR YMDDIRIEDOLAETH

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei hariannu gan arian ffi'r drwydded. Fel y cyfryw, mae'n bwysig iawn bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg yn effeithlon.

Ddwy flynedd yn ôl, gwnaethom ymrwymo i gadw gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth o dan 0.35% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn eto, gyda gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth yn cyfateb i 0.30% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU – ychydig yn llai na'r hyn a gafwyd yn 2008/09. Mewn termau absoliwt, mae ein gwariant wedi lleihau'n sylweddol. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r ffioedd is a delir i Ofcom, nad yw wedi cyflawni unrhyw waith yn asesu'r effaith ar y farchnad ar gyfer yr Ymddiriedolaeth eleni. Mae Ofcom hefyd wedi ad-dalu rhywfaint o ffioedd yn ymwneud â 2008/09 a chyn hynny, ar ôl pennu ei gostau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny.

Isod nodir datganiad gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth ac adroddiad yr archwilwyr allanol ar y datganiad hwn.

Tabl 1-1
**Gwariant cymharol yr Ymddiriedolaeth**

| | **2009/10 %** | 2008/09 % |
|---|---|---|
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth fel % o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU | **0.30** | 0.31 |

Tabl 1-2
**Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth**

| | Nodyn | **2009/10 £000** | 2008/09* £000 |
|---|---|---|---|
| Costau cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1 | **730** | 741 |
| Costau staff | 2 | **4,749** | 4,756 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **5,023** | 4,716 |
| Costau ailstrwythuro | 4 | **–** | 308 |
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth | 5, 6 | **10,502** | 10,521 |
| | | **2009/10 £000** | 2008/09 £000 |
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom | 7 | **3,521** | 3,571 |
| Ffioedd MIA Ofcom | 8 | **(117)** | 911 |
| Cyfanswm ffioedd Ofcom i'w talu gan yr Ymddiriedolaeth | | **3,404** | 4,482 |
| Cyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth | | **13,906** | 15,003 |

Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

1. Dangosir cydnabyddiaeth pob Ymddiriedolwr yn y tabl ar dudalen 1-45. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynnwys ffioedd, buddiannau trethadwy a chostau nawdd cymdeithasol yr Ymddiriedolwyr.
2. Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.
3. Mae costau gweithredu yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau megis gwaith ymchwil, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau cynghori arbenigol eraill a gweithgareddau ymgysylltu a digwyddiadau rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth.
4. Gwariwyd arian ar ailstrwythuro yn 2008/09 o ganlyniad i arolwg o'r ffordd y gwasanaethir y Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol. Yn sgîl hyn, lleihawyd nifer y staff gofynnol. Cyflwynwyd y newid yn 2009/10.
5. Mae'r gwariant a nodir uchod ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau a rennir a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus y BBC. Ymhlith y rhain roedd darparu eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwasanaethau gwybodaeth.
6. O wariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae £1,320,000 (2008/09: £1,539,000) yn ymwneud â gwariant ar ein gweithgareddau yn y pedair gwlad, sydd yn bennaf yn cwmpasu cymorth i'r pedwar Cyngor Cynulleidfa cenedlaethol a'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol.
7. Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio rhwng y BBC a'r sianelau masnachol a sianelau darlledu cyhoeddus eraill yn y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth yn talu cyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw yn seiliedig ar amcangyfrif gan Ofcom am y flwyddyn.
8. Mae ffioedd Asesu'r Effaith ar y Farchnad (MIA) Ofcom yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom i gynnal MIA o'r profion gwerth cyhoeddus ar gyfer y cyfnod dan sylw. Cwblhawyd un MIA yn 2008/09 (fideo lleol) ond ni chynhaliwyd unrhyw rai yn 2009/10. Yn ystod 2009/10 adolygodd Ofcom ei gostau ac ad-dalodd yr Ymddiriedolaeth am rai ffioedd blaenorol a godwyd am waith MIA.
9. Mae'r dosbarthiad o gostau rhwng categorïau yn y datganiad uchod wedi cael ei ddiwygio ychydig yn 2009/10 o gymharu â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yn arbennig dangosir nawdd cymdeithasol Ymddiriedolwyr bellach o dan gostau Ymddiriedolwyr yn hytrach na chostau gweithredu. Mae hyn yn golygu na fydd y costau o ran Ymddiriedolwyr a ddangosir uchod yn cyfateb i'r rhai a ddangosir yn y tabl cydnabyddiaeth ar dudalen 1-45. Mae'r swm a ddangosir uchod yn ddarlun mwy cyflawn o gostau Ymddiriedolwyr. Addaswyd gwariant ar gyfer y cyfnod cymharol yn briodol er cysondeb.

* Ailddatganwyd ffigurau 2008/09 er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel eu bod yn gymharol â ffigurau 2009/10. O ganlyniad cynyddodd costau staff £4,000 yn 2008/09 drwy gynnwys croniad tâl gwyliau.

Tabl 1-3
**Pobl yr Ymddiriedolaeth**

Mae niferoedd staff yr Ymddiriedolaeth wedi lleihau ychydig o flwyddyn i flwyddyn gan adlewyrchu effaith yr ailstrwythuro ar staff cymorth Rhanbarthau Lloegr yn 2009.

| | Nodyn | **Cyfartaledd y flwyddyn 2010** | Cyfartaledd y flwyddyn 2009 |
|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | Nifer |
| Ymddiriedolwyr | | **12.0** | 12.0 |
| | 1 | **CALI** | CALI |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth | 2, 3, 4 | **68.1** | 70.2 |

Nodiadau
1. Ystyr 'CALI' yw niferoedd cyfwerth ag amser llawn.
2. Lleolir y mwyafrif o staff Uned yr Ymddiriedolaeth yn Llundain, a lleolir 18.7 CALI (2009: 21.8) y tu allan i Lundain gan gefnogi'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.
3. Cyn mis Gorffennaf 2009, nid oedd staff a oedd yn cynorthwyo'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth er bod yr Ymddiriedolaeth yn ad-dalu eu costau staff yn llawn. Yn ystod mis Gorffennaf 2009, ar ôl ailstrwythuro'r modd y caiff y cynghorau cynulleidfa eu gwasanaethu, trosglwyddwyd gweddill y staff yr oedd eu hangen i gynorthwyo'r Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol i gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. At ddibenion cymharu caiff yr aelodau hyn o staff eu cynnwys yn y niferoedd uchod ar gyfer y ddwy flwyddyn.
4. O blith staff Uned yr Ymddiriedolaeth, daw 14% o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mae 7% yn anabl ac mae 68% yn fenywod (2008/09: 9%, 5% a 68% yn y drefn honno).

## Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr

Nicholas Kroll, Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth y BBC, yw prif swyddog yr Ymddiriedolaeth fel y nodir yn Siarter Frenhinol y BBC. Ef yw prif gynghorydd yr Ymddiriedolaeth a phrif weithredwr Uned yr Ymddiriedolaeth. Ei gyflog sylfaenol ar gyfer 2009/10 oedd £238,680 (2008/09: £237,900) a chyfanswm ei enillion hyd at 31 Mawrth 2010 oedd £282,609 (2008/09: £282,648). Fel uwch reolwyr eraill, ni fydd yn cael bonws am 2009/10 (2008/09: dim). Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC.

Mae gan Uned yr Ymddiriedolaeth 13 o uwch reolwyr yn ogystal â'r Cyfarwyddwr. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr uwch reolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth yn ôl cyflog sylfaenol ar 31 Mawrth 2010. Lle mae staff yn rhan-amser, rhoddir y cyflog cyfwerth ag amser llawn. Ar gyfer y ddwy flwyddyn a ddangosir, nid oedd uwch reolwyr yn gymwys i gael bonws

Table 1-4
**Nifer yr Uwch Reolwyr yn ôl band cyflog**

| Band cyflog | **31 Mawrth 2010** | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | **4** | 4 |
| £70,000 i £99,999 | **6** | 5 |
| £100,000 i £129,999 | **2** | 1 |
| £130,000 i £159,999 | **1** | 1 |
| Cyfanswm | **13** | 11 |


## Adroddiad KPMG LLP i Ymddiriedolaeth y BBC ('yr Ymddiriedolaeth')

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 3 Mehefin 2008, rydym wedi astudio'r datganiad o wariant uchod ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter Frenhinol y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan yr Ymddiriedolwyr a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdano. Paratowyd datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr gan gymhwyso gofynion cydnabod a mesur Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd ein hastudiaeth mor fanwl ag archwiliad o gryn dipyn.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter Frenhinol yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt â'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail y tybiaethau a nodir yn y Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.



**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol**
Chartered Accountants, 8 Salisbury Square, London, EC4Y 8BB
16 Mehefin 2010

dewisol nac arolwg blynyddol o gyflogau yn 2009/10. Mae'r cynnydd mewn niferoedd staff o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu gwahaniaethau amseru o ran llenwi dwy swydd wag a grëwyd ar ôl i staff adael cyn 31 Mawrth 2009.

## CYDNABYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLWYR

### Ffioedd

Caiff ein ffioedd fel Ymddiriedolwyr eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'u hadolygu bob blwyddyn gan ei adran. Yn 2009 argymhellodd yr Adran gynnydd o 1.5% mewn ffioedd ar gyfer aelodau'r Ymddiriedolaeth. Ystyriwyd yr argymhelliad hwn ond penderfynwyd gwrthod unrhyw gynnydd, yn unol â'r ffaith bod y BBC wedi rhewi cyflogau uwch reolwyr dros yr un cyfnod. Adlewyrchir hyn yn y tabl isod. Nid yw Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cael tâl am derfynu contract nac iawndal arall am golli swydd.

### Treuliau

Cawn ein had-dalu am dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, sy'n cynnwys teithio, llety, prydau bwyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith a lletygarwch. Caiff y treuliau rydym yn gymwys i'w hawlio eu llywodraethu gan God Ymarfer yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddir ar ein gwefan. Bob chwe mis rydym yn cyhoeddi rhestr lawn o'r holl dreuliau yr eir iddynt gan bob Ymddiriedolwr yn ogystal â'r gwasanaethau a archebir yn ganolog ar gyfer Ymddiriedolwyr gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Caiff rhai o'n treuliau a'n gwasanaethau cymorth eu dosbarthu fel buddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM a chyhoeddir y ffigur hwn yn y tabl cydnabyddiaeth; caiff unrhyw dreth sy'n deillio o dreuliau yr eir iddynt ei dalu gan y BBC.

### Buddiannau'r Cadeirydd

O dan delerau ei benodiad, mae'r Cadeirydd, Syr Michael Lyons, yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn gyda buddiannau sy'n cyfateb i rai Cynllun Pensiwn y BBC. Mae Syr

Tabl 1-5
**Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr**

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffioedd £000 | Buddiannau trethadwy £000 | **Cyfanswm 2009/10[1] £000** | Cyfanswm 2008/09 £000 | Cyfnod penodi: Dyddiad Dechrau | Cyfnod penodi: Dyddiad Gorffen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd ac Is-gadeirydd** | | | | | | |
| Syr Michael Lyons[2] | 143 | 61 | **204** | 213 | 1 Mai 07 | 30 Ebrill 11 |
| Chitra Bharucha | 77 | 1 | **78** | 79 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | |
| Alison Hastings* | 41 | 0 | **41** | 42 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Rotha Johnston* | 41 | 0 | **41** | 42 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Janet Lewis-Jones* | 41 | 0 | **41** | 42 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Jeremy Peat* | 41 | 0 | **41** | 42 | 1 Ion 06 | 31 Rhag 10 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Diane Coyle* | 36 | 0 | **36** | 37 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Anthony Fry[3] | 36 | 0 | **36** | 15 | 1 Tach 08 | 31 Hyd 12 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson* | 36 | 0 | **36** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| David Liddiment* | 36 | 0 | **36** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Mehmuda Mian | 36 | 0 | **36** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Richard Tait* | 36 | 0 | **36** | 36 | 1 Awst 04 | 31 Gorff 10 |
| **Cyn Ymddiriedolwr** | | | | | | |
| Dermot Gleeson[4] | – | – | **–** | 21 | 1 Tach 00 | 31 Hyd 08 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | 600 | 62 | **662** | 677 | | |

[1] Fel y nodir uchod, ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr unrhyw gynnydd mewn ffioedd ar gyfer 2009 ac felly mae eu ffioedd ar gyfer 2009/10 yr un peth ag ar gyfer 2008/09.
[2] Mae'r ffigur uwch ar gyfer buddiannau trethadwy Syr Michael yn adlewyrchu'r ffaith bod swyddfa'r Cadeirydd yn Llundain a'i fod ef yn byw yn Birmingham, felly caiff ei dreuliau teithio i Lundain a llety pan fydd yn Llundain ar gyfer busnes y BBC eu cyfrif yn fuddiant trethadwy. Mae Syr Michael hefyd yn cael aswiriant bywyd ac yswiriant meddygol preifat sy'n costio £4,817 a £2,398 yn y drefn honno ar gyfer 2009/10 (2008/09: £4,354 a £2,277).
[3] Penodwyd Anthony Fry yn un o Ymddiriedolwyr y BBC ar 1 Tachwedd 2008; yn unol â hynny mae ei ffioedd ar gyfer 2008/09 yn ymwneud â'r cyfnod 1 Tachwedd 2008-31 Mawrth 2009.
[4] Daeth cyfnod Dermot Gleeson fel aelod o'r Ymddiriedolaeth i ben ar 31 Hydref 2008. Cyn Ionawr 2007, roedd yn lywodraethwr y BBC.

* Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr hyn dreuliau trethadwy sy'n llai na £500 ac o ganlyniad fe'u talgrynnwyd i £dim yn y tabl uchod. Hawliodd yr Ymddiriedolwyr hyn gyfanswm o £2,329.99.

Michael wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn, felly nid yw'r BBC wedi gwneud unrhyw gyfraniadau pensiwn ar ei gyfer. Yn hytrach, mae'n cael aswiriant bywyd ar lefel sy'n debyg i aelodau'r Cynllun Pensiwn. Mae hefyd yn cael yswiriant meddygol preifat sydd ar yr un lefel ag uwch reolwyr y BBC. Heblaw'r Cadeirydd, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC na chael yswiriant meddygol preifat.

### Cofrestr buddiannau

Mae ein Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw a chyhoeddi cofrestr o'r holl fuddiannau allanol y gellid ystyried eu bod yn effeithio ar ein gallu i gyflawni dyletswyddau un o Ymddiriedolwyr y BBC. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys datganiadau o bob swydd gyflogedig, cyfarwyddiaeth a swydd wirfoddol yn ogystal â buddiannau aelodau agos o'r teulu, os yw'n berthnasol. Mae cofrestr buddiannau'r Ymddiriedolaeth ar gael ar ein gwefan.

### Rheoliadau adroddiadau

Mae'r BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ynghyd â rhai'r FSA ond, lle y bo'n berthnasol, rydym wedi llunio'r Adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny'n gymwys. Caiff yr adran ar gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ei harchwilio.

Ar dudalen 1-42 ceir gwybodaeth am y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau ac ar dudalen 1-25 ceir ein strategaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

## PRESENOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYFARFODYDD

Dangosir presenoldeb yr Ymddiridolwyr yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010 isod.

Cyhoeddir calendr o gyfarfodydd llawn yr Ymddiriedolaeth a'u cofnodion, a'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor, ar ein gwefan.

Tabl 1-6
**Tabl mynychu cyfarfodydd**

| | Ymddiriedolaeth | Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad | Pwyllgor Safonau Golygyddol | Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth | Pwyllgor Cymeradwyo Strategol | Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa | Panel Apeliadau Cyffredinol[1] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 16 | 11 | 14 | 14 | 13 | 4 | 5 | 6 |
| **Cadeirydd** | | | | | | | | |
| Syr Michael Lyons | 16/16 | – | – | – | – | 4/4 | – | – |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | | | |
| Chitra Bharucha | 15/16 | – | 13/14 | – | – | 4/4* | 5/5* | 6/6* |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 15/16 | 11/11 | 13/14 | – | – | – | 5/5 | – |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 16/16 | – | – | 14/14* | 12/13 | – | 5/5 | – |
| Janet Lewis-Jones (Cymru) | 16/16 | – | – | 14/14 | – | 4/4 | 5/5 | – |
| Jeremy Peat (Yr Alban) | 16/16 | – | – | 13/13[2] | 13/13 | – | 5/5 | – |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | | | |
| Diane Coyle | 14/16 | 10/11 | – | – | 13/13* | – | – | – |
| Anthony Fry | 15/16 | – | 10/14 | 11/14 | – | 4/4 | – | – |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 16/16 | 11/11 | – | 14/14 | 13/13 | – | – | – |
| David Liddiment | 15/16 | 10/11* | 13/14 | – | – | – | – | 2/2 |
| Mehmuda Mian | 13/16 | 7/11 | 11/14 | – | – | – | – | 5/5 |
| Richard Tait | 11/16 | – | 13/14* | – | 10/11[3] | – | – | 1/1 |

Nodiadau:
[1] Nid yw'r Panel Apeliadau Cyffredinol yn cynnwys yr un aelodau yn gyson.
[2] Ni fynychodd Jeremy Peat un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth o ganlyniad i wrthdaro buddiannau posibl.
[3] Ym mis Chwefror 2010 daeth aelodaeth Richard Tait o'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol i ben.
* Yn dynodi Cadeirydd pwyllgor.

Am ragor o wybodaeth am y pwyllgorau a'u cyfrifoldebau, gweler tudalennau 1-40-1-42.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa a phwyllgorau eraill

Mae'r Siarter Frenhinol yn sefydlu Cynghorau Cynulleidfa ym mhob un o'r gwledydd i gynghori'r Ymddiriedolaeth ar y gwaith o gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus a pha mor dda y mae'r BBC yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded mewn gwahanol rannau o'r DU.

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol perthnasol sy'n cadeirio'r Cynghorau Cynulleidfa. Roedd presenoldeb yr Ymddiriedolwyr Cenedlaethol yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa ar gyfer 2009/10 fel a ganlyn:

- Alison Hastings 7/7
- Rotha Johnston 11/11
- Janet Lewis-Jones 11/11
- Jeremy Peat 11/11

Jeremy Peat a Diane Coyle sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar y Grŵp Llywio ar y Cyd ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Farchnad gydag Ofcom. Dim ond un cyfarfod a gynhaliwyd yn y cyfnod hwn, a fynychwyd gan y ddau ohonynt.

Jeremy Peat yw cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth Pensiwn y BBC Cyf, ymddiriedolwr corfforaethol Cynllun Pensiwn y BBC, sy'n cwrdd chwe gwaith y flwyddyn. Caiff gydnabyddiaeth ar wahân am y rôl hon. Ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn y BBC.

Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth banel apeliadau ad hoc deirgwaith rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010. Ymhlith aelodau'r Pwyllgor roedd Chitra Bharucha, Diane Coyle, y Fonesig Patricia Hodgson, Rotha Johnston, Mehmuda Mian, Jeremy Peat a Richard Tait.

## Datganiad o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon

### a) Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran, Rhan Un gan yr Ymddiriedolaeth a Rhan Dau gan y Bwrdd Gweithredol.

Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn yr adran Llywodraethu yn Rhan Dau o'r adroddiad blynyddol hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau o'r adroddiad blynyddol hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u hardystiwyd gan yr UE, gan adlewyrchu'r ffaith bod IFRS yr UE yn gyffredin iawn yn y DU, yn cael eu mabwysiadu gan y sector cyhoeddus ac y caniateir iddynt gael eu defnyddio o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol 2008 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a darpariaethau datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.


Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hynny, mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y datgeliadau hyn, a archwilir, a chânt eu cynnwys yn Rhan Un o'r adroddiad hwn.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un o'r adroddiad blynyddol.

### b) Datganiad o ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 16 Mehefin 2010.



**Syr Michael Lyons**
Cadeirydd
16 Mehefin 2010

# CYSYLLTU Â NI

## CYSYLLTU Â'R BBC

Os hoffech wybod mwy am flwyddyn y BBC – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad am Bolisi Rhaglenni, yn ogystal ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill ewch i **www.bbc.co.uk/annualreport**.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fersiwn sain.

Os hoffech wybodaeth neu wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg ewch i **www.bbc.co.uk/aboutthebbc**.

Am docynnau i sioeau, teithiau a digwyddiadau ewch i **www.bbc.co.uk/showsandtours**.

Os oes gennych sylw, gwerthfawrogiad neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC ewch i **www.bbc.co.uk/feedback**.

Neu ysgrifennwch i BBC Audience Services,
PO Box 1922, Darlington, DL3 0UR

Llinell ffôn sylwadau: 03700 100 222*
Llinell ffôn ymholiadau eraill: 03700 100 123*
Ffôn testun 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.

Y llynedd cafodd y BBC dros 3.3 miliwn o gysylltiadau â'r cyhoedd.

## YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynglŷn â gwaith Ymddiriedolaeth y BBC, gallwch gysylltu â ni drwy'r post, drwy e-bost, neu dros y ffôn.

BBC Trust Unit
1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

Ffôn: Llinell Wybodaeth y BBC 03700 103 100†*
Ffôn testun: 03700 100 212*

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm.

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

## CYNGHORAU CYNULLEIDFA'R BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU. I gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

### Audience Council England

E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

### Audience Council Scotland

E-bost: acs@bbc.co.uk

### Cyngor Cynulleidfa Cymru

E-bost: acw@bbc.co.uk

### Audience Council Northern Ireland

E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

† Gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant.
* Rhifau 'ledled y DU' yw rhifau 0370 ac ni fyddant yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.

# DIOLCHIADAU


## FFOTOGRAFFIAETH

Mae'r delweddau canlynol wedi cael eu trwyddedu i'r BBC o dan y cytundeb PACT. Y cwmnïau cynhyrchu annibynnol a elwir yn Ddeiliaid Hawlfraint yw: tudalen 1-11 *Small Island* (h) Ruby Television Production; tudalen 2-6 *QI* (h) Talkback THAMES; tudalen 2-7 *My Life in Verse* (h) Wall to Wall; tudalen 2-8 *Mrs Mandela* (h) Diverse Productions; tudalen 2-14 *Hamlet* (h) Illuminations Media/RSC ac *Alphablocks* (h) Magic Lantern; tudalen 2-35 *The Bubble* (h) Hat Trick, *Mad Men* (h) AMC, *The Lives of Others* (h) Lionsgate ac *On Thin Ice* (h) Twofour Productions; tudalen 2-36 *The Gruffalo* (h) Magic Light Company, *Wallander* (h) Left Bank Pictures/Yellow Bird, *Ashes to Ashes* (h) Kudos; tudalen 2-50 *Mastercrafts* (h) Ricochet; tudalen 2-51 *Who do you think you are?* (h) Wall to Wall; tudalen 2-52 *Natural World* (h) AGB Films, *Outnumbered* (h) Hat Trick ac *Occupation* (h) Kudos; tudalen 2-54 *Timmy Time* (h) Aardman Animations; tudalen 2-55 *Horrible Histories* (h) Lion Television; tudalen 2-70 *Charlie and Lola* (h) Tiger Aspect Productions a *Life* (h) Norbert Rottcher; a thudalen 2-105 Winston Churchill (h) Rainmark Films.

Y BBC sy'n berchen ar yr hawlfraint ar gyfer yr holl ffotograffau eraill yn y llyfr hwn.

Mike Abrahams a dynnodd y llun ar gyfer clawr y prif Adroddiad Blynyddol a'r lluniau ar dudalennau 1-3, 1-4, 1-26, 1-32, 1-34, 1-40, 1-41, 1-42, 1-43, 2-4, llun 2 ar dudalen 2-7, 2-8, 2-9, 2-12, 2-16, 2-24, llun 4 ar dudalen 2-28, 2-30, 2-32, 2-40, 2-45, 2-46, llun 2 ar dudalen 2-47, llun 2 ar dudalen 2-52, llun 4 ar dudalen 2-57, 2-60, pob llun ar dudalennau 2-61 a 2-65, 2-74, pob llun ar dudalennau 2-76 i 2-80, 2-84, 2-85 a 2-86; Andy Shephard a dynnodd y llun ar dudalen 1-15; Farhana Haider a dynnodd y llun ar dudalen 1-16; Sarah Barney a dynnodd y llun ar dudalen 1-20; Janie Airey a dynnodd y llun o'r cwpwl yn gwylio'r teledu ar dudalen 1-35 a'r llun o'r ffôn symudol ar dudalen 2-44; Trevor Aston a dynnodd y llun ar dudalen 1-28; Alan Peebles a dynnodd y llun ar dudalen 1-38; Karen Robinson a dynnodd y llun o *The Now Show* ar dudalen 2-19; Adrian Weinbrecht a dynnodd y llun o Jez Nelson ar dudalen 2-20; a Jennifer Burgess a dynnodd y llun o *Bang Goes the Theory* ar dudalen 2-64. Llun lloeren o'r DU ar fflap Rhan Un (h) NEODAAS/NERC/Prifysgol Dundee.

## DYLUNIAD

luminous.co.uk

## CYFIEITHIAD

Prysg Cyf

## ARGRAFFIAD

Royle Print. Gwneir yr inc argraffu o olew llysiau nad yw'n beryglus o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o doddyddion a datblygyddion eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae mentrau ailgylchu ar waith ar gyfer pob gwastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae Royle Print wedi ei ardystio FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i ddiogelu'r amgylchedd drwy bob proses.

## PAPUR

Argraffwyd ar bapur Cocoon Offset sydd wedi'i wneud o ffibrau wedi'u hailgylchu 100% sy'n deillio o wastraff ôl-ddefnyddwyr yn unig. Ardystir Cocoon Offset yn unol â'r rheolau ar gyfer y Forest Stewardship Council.



100%
FSC
Recycled
Supporting responsible use of forest resources
Cert no. TT-COC 002228
www.fsc.org
© 1996 Forest Stewardship Council

**CarbonNeutral**® printing company

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London WIA IAA
bbc.co.uk
(h) BBC 2010